PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 473 | Tachwedd 2024

**Teyrnged Nerys i Carwyn**

t.8



**O Licyris Olsorts i'r RSC**

t.17



**Ymweliad Dean Saunders**

t.5







# Joseff yn disgleirio





Llongyfarchiadau i athrawon ymroddgar a disgyblion dawnus Ysgol Penweddig am berfformiadau arbennig o'r sioe Joseff ganol y mis. Diolch arbennig i Catrin Mai, Aled Myrddin a Rachel West.

Roedd yn eironig fod y perffformiad yn dilyn Gŵyl Cerdd Dant lwyddiannus yr Wyddgrug – Gŵyl Aled gan mai cyfieithiad arbennig Aled Lloyd Davies o sioe Andrew Lloyd Webber a Tim Rice ddefnyddiwyd – diolch i'w weddw Mrs Beryl Davies. Ei ferch yng nghyfraith Catrin Mai oedd yn cyfarwyddo a'i or-wyres Miriam Llwyd oedd un o'r prif gymeriadau. Iwan Finnagan oedd yn disgleirio fel Joseff.

Bydd rhai darllenwyr yn cofio i Ysgol Gymraeg Aberystwyth recordio cyfieithiad y Parchg Peter Thomas o 'Any dream will do' rhai blynyddoedd nôl.



**Band y Sioe**: Piano: Rachel Gregory; Allweddell: Llio Adams a Sara Jenkins; Taro: Reuben Pridmore a Steffan Jones, Bas: Gruffydd Davies Gitâr: Dan Smith, Obo: Alison Grealey

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Rhagfyr: Dyddiad cau Rhagfyr 6; Dyddiad cyhoeddi Rhagfyr 18**

**TACHWEDD**

20 Nos Fercher Gareth Griffiths Capiau cwyr campus Cymru Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

21 Nos Iau. Cynefin yn y Bank Vaults, Aberystwyth

22 Nos Wener skyirk - y daith marmor yn y Cŵps, Aberystwyth

23 Nos Sadwrn Cyngerdd cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth 2025 yn Eglwys San Mihangel, Maes Lowri, Aberystwyth. SY23 2AU am 7:30y.h. £10 (plant cynradd am ddim) Artistiaid - Linda Griffiths / Premier Cantata'r Geni./Deuawd Telyn Gwasanaeth Cerdd Ceredigion/ Dawnswyr Seithenyn.

25 Nos Lun Cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Gymunedol Y Borth i drafod penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i gau Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las gyda'r gymuned leol am 7yh.

26 Nos Fawrth Cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod dyfodol Canolfan Nant-yr-arian yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 6.30.

27 – 28 Dyddiau Mercher a Iau Cwmni Mega yn cyflwyno Culhwch ac Olwen yn Theatr y Werin am 10.00 a 1.00 Tocynnau o tocyn@cwmnimega.cymru

28 Nos Iau Cyngerdd Nadolig y Maer gyda Seindorf Arian Aberystwyth, Côr Cardi-gân, Meibion y Mynydd a Chôr Ysgol Gymraeg am 7.00. Dim angen tocyn.

29-30 Nosweithiau Gwener a Sadwrn Cabarela yn Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00

**RHAGFYR**

1 Nos Sul Cyngerdd Côr Ger-y-lli

3 Nos Fawrth Goleuo Coeden Nadolig y plwyf; trefnir gan Gyngor Tirymynach ac Ysgol Rhydypennau ; bydd plant yr ysgol yn canu carolau; ceir diod a mins-peis yn y Neuadd

6 Nos Wener Ffair Nadolig Cletwr o 3.30-7.30

6 Nos Wener Noson Goffi ac Adloniant yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 7.00

11 Nos Fercher Plygain Eglwys St Mair, Aberystwyth am 7.00

13 Nos Wener Noson bingo yn Neuadd yr Eglwys am 7.00

15 Nos Sul Cyngerdd ABC Eglwys Llanbadarn

17 Nos Fawrth Chris Gilbert - gweithdy Nadoligaidd Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.30

19 Nos Iau Plygain traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch am 7.00

2 Nos Wener 'Dathlu'r Nadolig' yng nghwmni Anwen Pierce ac Angharad Fychan Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch

**2025**
**IONAWR**

16 Nos Iau Rheinallt Llwyd – Cipolwg ar yrfa Islwyn Ffowc Elis Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

# IS-ETHOLIAD WARD TIRYMYNACH



Dyma ganlyniad is-etholiad ward Tirymynach ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd ar Hydref 17.
Gareth Lewis, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 285
Jonathan Evershed, Plaid Cymru 242
Jack Parker, Reform 25
Ethan James Terry, Plaid Geidwadol Cymru 17
James Ralph Cook, Llafur Cymru 8
Harry Hayfield, Plaid Werdd Cymru 6

Llongyfarchiadau i'r cynghorydd newydd, Gareth Lewis. Fe lwyddodd y Democratiaid Rhyddfrydol i gadw'r sedd, un o saith sydd ganddynt ar Gyngor Ceredigion. Wrth gwrs, mae Gareth yn fab yng nghyfraith i'r cyn-gynghorydd, y diweddar Paul Hinge. Er fod yna chwech ymgeisydd, fe aeth 90% o'r bleidlais i'r ddau ymgeisydd ar y brig.

# 30 mlynedd yn ôl



Roy Noble yn gwneud rhaglen i'r BBC gyda phlant dosbarth 2 Ysgol Craig yr Wylfa.
(o'r *Tincer* Tachwedd 1994)

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Hydref 2024

£25 (Rhif 279) R.Jenkins, Cwmbwa, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 96) Gwyneth Ann Davies, Ynys, 12 Maes Seilo, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 227) Llinos Evans, Waungron, 36 Maeshendre, Waunfawr

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost bethanbebb168@gmail.com
Gair i atgoffa fod y flwyddyn newydd o aelodaeth yn dechrau ar y cyntaf o Ionawr.

## CYFEILLION Y TINCER

**FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB**

ENW LLAWN ____________________

CYFEIRIAD ____________________

CÔD POST ____________ RHIF FFÔN ____________

E-BOST ____________________

**TALIADAU**
Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu siec ☐ Archeb banc

**DATGANIAD**
Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn I mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol am 10 mis.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.
**Mae'r flwyddyn yn rhedeg o Ionawr 1af i Ragfyr 31**

Llofnod ____________________

Dyddiad ____________________

**Dychwelir y ffurflen i bethanbebb162@gmail.com neu**
**Bethan Bebb Penpistyll, Cwmbrwyno, Aberystwyth. SY23 3PG**

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

**BRIDGE HOUSE CLEARANCE**

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd. Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Tachwedd*
24 2.30 Rhidian Griffiths ym Methel

*Rhagfyr*
1 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
8 10.30 Peter Thomas
15 2.30 Oedfa Nadolig
22 2.30 Oedfa – Bethel, Aberystwyth
29 Oedfa diwedd blwyddyn i'w threfnu



**Cynrychioli Cymru**
Llongyfarchiadau i Owen Jac Roberts, ŵyr Mervyn a Sue Hughes, Ger-y-llan, ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn Ffrainc mis Tachwedd ar gyfer Pencampwriaeth Cwpam Tymblo Ffrengig Rhyngwladol gynhelir yn Sevran.

## Canlyniadau Pêl-Droed Penrhyn-Coch



**TIM 1AF**

**Cynghrair**
*Hydref*
12 Penrhyn-coch 1 Rhuthun 3

**Cwpan CBC**
19 Penrhyn-coch 1
Yr Wyddgrug Alexandra 3

**Cynghrair**
24 Gresffordd 1 Penrhyn-coch 1
*Tachwedd*
2 Yr Wyddgrug Alexandra 1
Penrhyn-coch 2

**Cwpan Pêl-droed Canolbarth Cymru**
6 Penrhyn-coch 5 Felin-fach 1

**Cynghrair**
9 Penrhyn-coch 5 Llandudno 0

**EILYDDION**

**Cynghrair**
*Hydref*
12 Gelli Gandryll 0
Eilyddion Penrhyn-coch 1
15 Tîm datblygu Caersws 3
Eilyddion Penrhyn-coch 1

**Cwpan Emrys Morgan**
*Hydref*
26 Corris 2 Eilyddion Penrhyn-coch 2
Penrhyn-coch yn ennill ar gicio o'r smotyn

**Cynghrair**
28 Eilyddion Penrhyn-coch 5
*Tachwedd*
2 Llanandras St Andrews 1
Eilyddion Penrhyn-coch 2
9 Pen-y-bont Unedig 1
Eilyddion Penrhyn-coch 1

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Mandy Glennie a'r teulu, Y Ddôl Fach, ar farwolaeth ei mam – Barbara Madden.

**Pen blwydd priodas hapus**
Dymunwn ben blwydd priodas hapus i Eirlys ac Elfed Evans, Bodafon, ddathlodd 60 ml o briodas ddechrau Tachwedd.

**Croeso gartref**
Da deall fod Nia Jenkins nôl gyda' sebon Am ei nwyddau diweddaraf gweler www.soaprano.co.uk

**Cymdeithas y Penrhyn**
Ar nos Iau 17 Hydref dan Leuad yr Heliwr croesawodd y Cadeirydd, Dr Angharad Fychan, aelodau o Gymdeithas y Penrhyn i Gapel Horeb am gyfarfod agoriadol y tymor.

Cyflwynodd Angharad Dr Bleddyn Huws, Uwch Ddarlithydd Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth. gan dynnu sylw ei fod yn dychwelyd at y Gymdeithas ar ôl arwain ein Taith Flynyddol i ardal Dyffryn Nantlle ym mis Mehefin, taith a oedd yn cynnwys ymweliad ag ysgoldy Rhyd-ddu lle ganwyd T H Parry Williams. Mae Bleddyn yn arbenigwr ar fywyd a gwaith y bardd ac yn awdur y llyfr "Pris Cydwybod - T H Parry-Williams a Chysgod y Rhyfel Mawr" sydd yn delio â'i brofiadau fel gwrthwynebydd cydwybodol.

Dywedodd Bleddyn iddo werthfawrogi'r cyfle i ymhelaethu ar y sgwrs "Soned heb ei chyhoeddi gan T H Parry-Williams" a draddododd ar fore Iau hynod o wlyb yn ystod Eisteddfod Pontypridd. Eglurodd ei fod yn ymchwilio i gerddi T H Parry-Williams ar ôl sylweddoli nad oedd casgliad llawn wedi'i gyhoeddi. Daeth y soned dan sylw i'r fei mewn llythyr oddi wrth T H Parry-Williams i'w gefnder Bob, sef R Williams Parry.

Eglurwyd bod y ddau fardd yn arfer gohebu a thrafod gwaith ei gilydd.

Dangosodd Bleddyn dri phennill pedair llinell yn llawn cyfeiriadau tywyll eu naws megis "dychryniadau", "cysgodion", "gofid" a "diwedd ar obeithion byd"'.

Ysgrifennwyd y llythyr tua diwedd y 1930au ac o ganlyniad mae'r darllenydd yn neidio i'r casgliad bod y penillion yn cyfeirio at gysgod y Natsïaid dros Ewrop. Ond mae tro yn y gynffon. Wrth i Bleddyn ddatguddio'r gwpled derfynol, daeth yn amlwg bod y bardd wedi ein camarwain yn gywrain a bod gwir achos ei ofid yn llawer nes gartref.

Sbardunodd y sgwrs drafodaeth ddiddorol ar foesoldeb cynnwys gwaith mewn casgliad pan nad oedd yr awdur wedi bwriadu ei gyhoeddi. Daeth y cyfarfod i ben gyda chyfle i gymdeithasu dros baned a baratowyd gan Glenys Howells a Wendy Reynolds.







Cyfle i hen gyfeillion gwrdd. Arferai teulu Caryl redeg fferm Dean Saunders, ar y Gogarth, Llandudno - gŵr gwadd cinio blynyddol CPD Penrhyn-coch eleni. Cafwyd cyfle i rannu atgofion pan ddaeth dros 100 ynghyd ar y noson.




**Cododd Cylch Meithrin Trefeurig £40 ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen.**



**Iwan Finnigan (curad) a'i fam Nicole Roberts (un o'r gweithwyr) yng nghynhyrchiad CwmniTheatr Maldwyn - Pum diwrnod o ryddid.**





Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio yn ôl yr arfer ar Sgwâr y pentref ar Dach 10 . Eleni roedd y trefniadau dan ofal y Parchg Lynn Rees yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg Peter Thomas. Cynorthwywyd gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned, Richard Owen. Chwaraewyd y corn gan Steffan Jones.
Un oedd yn amlwg o'i habsenoldeb oedd Gwenan Price sydd yng ngofal y trefnu blynyddol fel arfer – da deall ei bod gartref o'r ysbyty ac yn gwella.




## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r cyngor ar 23 Medi Cafwyd munud o dawelwch i gofio am y Cynghorydd Paul Hinge a fu farw'n sydyn ym mis Awst. Bydd neges yn cydnabod ac yn diolch am ei waith i'w gweld yn hysbysfwrdd y ward.
Nodwyd bod:

- isetholiad y ward i'w gynnal ar 17 Hydref a bod enwau'r ymgeiswyr yn yr hysbysfwrdd.
- y gwaith o drwsio offer parc chwarae Bryncastell wedi'i gwblhau.
- peiriant di-ffib newydd i'w osod yn y neuadd, a bod un ar fin ei osod yn Llangorwen.
- arwydd wedi'i godi ym mharc chwarae Tregerddan yn nodi ei fod wedi cau, ac na ddylid defnyddio'r offer am resymau iechyd a diogelwch.
- hyfforddiant y cynghorwyr yn parhau.
- rhai o gyfrifon y cyngor cymuned yng ngofal Awdit Cymru.
- bwriad i gael coeden Nadolig wrth Gapel y Garn (manylion pellach isod) a chynnal achlysur i'w goleuo.

Hefyd:
Mae'r cyngor yn croesawu ceisiadau am grantiau am y cyfnod 2025/26. Rhaid cynnwys mantolen gyda'r cais, a'r **dyddiad cau** ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **19 Ion 2025**.

Bydd Coeden Nadolig y ward yn cael ei goleuo ar nos Fawrth, 3 Rhagfyr.
Mae Cyngor Tirymynach ac Ysgol Rhydypennau yn eich croesawu i'r digwyddiad, pryd y bydd plant yr ysgol yn canu carolau, a cheir diod a mins-peis yn y neuadd.

Plis nodwch fod croeso mawr i unrhyw un sy'n byw yn y ward i ymuno â'r cygor cymuned – mae angen gwaed newydd arnom! Cysylltwch â tirmynach@gmail.com

Cyfarfod nesaf: Neuadd Rhydypennau, 31 Hydref, 6pm

**Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion**
**Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd**



Aelodau Clwb Sul Horeb gyda'u negesyr Hydref "Mae'r tymhorau yn newid ond mae Iesu yr un fath bob amser - ddoe, heddiw ac am byth.

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth**
**26 Hydref 2010**
(1632 gyda 1592 wedi eu gwerthu)
Cynigiwyd llai o ddefaid yr wythnos hon gyda masnachu da gydol yr amser. Roedd mwyafrif yr ŵyn stôr yn rai llai fel yr adlewyrchir yn y prisiau ar gyfartaledd.
Roedd y prisiau fel a ganlyn:
Defaid lladd (491) Cyf. £66.17 Mwy £149 gan Jones, Pencefn, Bow Street
Hyrddod lladd (22) Cyf £43 Mwy £300 gan Innovis, Peillyth.
Mamogiaid magu (88) Cyf £68.10 Mwy £80 gan Evans, Pengeulan
Hyrddod magu (9) Amc £172.78 Mwy £300 gan Griffiths, Nanty.
Ŵyn Stôr (1022) Cyf £74.53 Mwy £124 gan Corfield, Blaencarrog.
Cadwch lygaid allan am hetiau newydd Aled Ellis! Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.

**09 - 11 - 2024** (1673)
Gwerthiant llwyr gyda llawer o'r prynwyr oedd yna yn edrych yn benodol am ŵyn stôr. Edrychai yr wyn bach yn ddrud iawn o'u cymharu a'r ?? wyn. Bu masnachu da ar y mamogiaid magu hefydgyda'r ychydig gynigiwyd yn masnachu yn dda am gyfartaledd o tua £80.
Roedd y prisiau fel a ganlyn.
Mamogiaid cwlio (504) Cyf. - £69.29 Mwy £143 gan Davies, Ffosbompren, Llanilar
Hyrddod (38) Amcg - £113.60 Mwy £150 gan Hughes, Llwynbedw, Llangwyryfon
Mamogiaid magu (164) Cyf £78.80 Mwy £84 gan Jehu & Feibion, Pen-y-banc, Darowen
Ŵyn stôr Store (967) Cyf £85 Mwy £136 gan Sian Jones, Cwmgwenyn, Llangeitho
Fel hyn oedd hi heddiw, prisiau da ar bopeth yn enwedig yr ŵyn bach. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eich cefnogaeth.

**Arddangosfeydd**
Bydd arddangosfa Llwyth - casgliad o brints yn dathlu'r cysylltiad rhwng byd natur a llên gwerin gan Ruth Jên yn Cletwr tan Ionawr 6 ac arddangosfa arall ym Mhlas Brondanw, Llanfrothen hyd at 12 Ionawr 2025.

**Cydymdeimlo**
Daeth y newyddon trist am farwolaeth sydyn Trefor Evans, Dewi Villa Rydym yn meddwl am y teulu yn eu galar ac yn anfon ein cydymdimlad at ei briod Ray a'i rieni David a Dorothy Evans, Murmur y Coed.



**Graddio**
Llongyfarchiadau i Caeo Rhys Pryce, Sanclêr, ŵyr Arthur ac Eirian Hughes, Lluest-fach wedi iddo ennill gradd Cymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd y bêl-droedwraig Jess Fishlock ei hanrhydeddu yn ystod y seremoni raddio, a hithau newydd dorri'r record am y nifer fwyaf o goliau dros Gymru. A llwyddwyd i fachu llun!

## Clwb Rotary Aberystwyth

Mae Clwb Rotary Abverystwyth yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn i berson ifanc o'r ardal sy'n ymgymryd â gwaith dyngarol gwirfoddol. Mae'r rhai sydd wedi derbyn yr ysgoloriaethau yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael profiadau difyr a gwerthfawr, drwy dreulio amser yn gweithio mewn gwledydd tramor. Bu Millie Hore y llynedd yn treulio mis yn Ffiji yn gweithio gyda brodorion mewn pentre gwledig gan ddysgu llawer am eu ffordd syml o fyw, a'r flwyddyn cynt cafodd Eleanor Mathias amser diddorol yn gweithio yn Nepal. Ond 'does dim rhaid mynd mor bell â hynny er mwyn cwrdd ag amodau'r ysgoloriaeth.

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ddynion a merched o ardal Aberystwyth sydd heb fod dros 23 oed. Mae'r manylion i'w gweld yma, a gallwch gysylltu â Geraint Thomas am ragor o wybodaeth.

Agwedd arall ar gyfraniad y Clwb Rotary i'r gymuned yw y casgliad a wneir bob blwyddyn cyn y Nadolig er mwyn elusennau lleol, yn siop Morrisons ar 4-7 Rhagfyr, ac yna 18 -21 Rhagfyr yng nghanolfan siopa Tesco/ M&S ar 18-21 Rhagfyr. Bydd yr holl arian a gesglir yn cael ei rannu rhwng elusennau lleol, yn cynnwys Banc Bwyd Jiwbilî, hosbis HAHAV, DASH Ceredigion, a Gofal Canser Macmillan (Aberystwyth). Bydd modd cyfrannu mewn arian parod neu gyda cherdyn banc.




**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion
Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

# Tynnu yr Arad: Dathlu 35 Mlynedd o Waith Jeremy Turner gyda Chwmni Theatr Arad Goch



Ymunwch â ni ar brynhawn arbennig wrth i ni edrych yn ôl ar waith anhygoel Cwmni Theatr Arad Goch ers ei sefydlu yn 1989. Ar Dachwedd 30ain am 3 o'r gloch y prynhawn, bydd Canolfan Arad Goch yn cynnal digwyddiad i nodi ymddeoliad Jeremy Turner, un o sylfaenwyr y cwmni ac sydd wedi bod yn Gyfarwyddwr Artistig ers 35 mlynedd.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys sgwrs gyda Jeremy Turner, lle bydd yn rhannu atgofion a straeon o'i yrfa hir a llwyddiannus. Fel rhan o'r cyflwyniad, bydd Jeremy hefyd yn dangos lluniau o rai o gynyrchiadau'r cwmni, gan roi cipolwg ar hanes cyfoethog Arad Goch.

Bydd lluniaeth ysgafn a diodydd ar gael ar ôl y cyflwyniad, gan roi cyfle i westeion sgwrsio a rhannu atgofion.

Rydym yn eich gwahodd yn gynnes i ymuno â ni yng Nghanolfan Arad Goch ar gyfer yr achlysur arbennig hwn.

Gan fod llefydd yn brin, rydym yn gofyn yn garedig i chi gadarnhau eich presenoldeb trwy ebostio post@aradgoch.org erbyn Tachwedd yr 8fed, os gwelwch yn dda.

## Dysgu yn y Wladfa

Ganol y mis cyhoeddodd Cyngor Prydeinig (Cymru) bod dwy o'r ardal wedi cael eu penodi i fynd i Batagonia fel Swyddogion Cynllun Yr Iaith Gymraeg, Chubut a bod y ddwy wedi cadarnhau eu bod yn derbyn y cynnig. Y ddwy yw Lleucu Haf ac Anna ap Robert. - modryb a nith. Mae cyn-athrawes ar y Cynllun yn chwaer i Anna ac yn fodryb i Lleucu … Gwenith Blair.

Dymuniadau gorau i'r ddwy wrth iddyn nhw ymgymryd â'u swyddogaeth yn ein gwanwyn ni.

Treuliodd Lleucu eisoes y llynedd yn Nyffryn Camwy ( y Gaiman) - bydd yn dychwelyd yn 2025 i'r gymuned yr Andes ac Anna yn mynd i'r Dyffryn. Yn ddiweddar Anna oedd un o swyddogion creadigol Theatr Felin-fach lle llwyfanwyd y sioe Mimosa dros yr hanner tymor.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200




GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn fel ardal â Gareth a Beti Daniel, Glynrheidol ac â Nerys Daniel, Llety'r Bedol ar golli mab a brawd annwyl, sef Carwyn. Sioc a siom oedd clywed y newydd trist hwn. Mawr obeithiwn bod y ffaith ein bod fel ardal yn meddwl amdanoch yn gysur i chi ar yr adeg anodd yma.

Er ei anabledd, roedd Carwyn bob amser â gwên lydan ar ei wyneb ac roedd gofal teyrngar ei rieni a'i chwaer yn gaffaeliad iddo. Fe roddodd y tri y gofal gorau iddo gan roi anghenion Carwyn yn gyntaf bob amser. Roedd pob dydd yn frwydr i Carwyn a phob dydd yn frwydr wahanol i'w rieni a'i chwaer i sicrhau ei fod yn cael y gofal a'r profiadau gorau posibl ar bob achlysur.

Yn ddiweddar, byddai'r gadair olwyn yn gwibio nôl a mlaen o Glynrheidol i Llety'r Bedol lle roedd bob amser yn mwynhau ac yn barod am sgwrs wrth ochr yr heol. Roedd ei bositifrwydd at fywyd a'i sirioldeb yn esiampl i ni gyd.

Melys yw'r atgofion.

(Eurgain Ellis)




**Urdd y Gymuned**

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Tom a Jane Doidge, Cae Gynon. Mae y ddau yn cynhyrchu llestri hyfryd iawn a chafwyd hanes dechrau y fenter gan y ddau. Erbyn hyn mae eu cynnyrch ar werth yng Nghanolfan y Celfyddydau. Noson hyfryd a chartrefol iawn, Diolch i Elen Howells am drefnu.

**Cydymdeimlad - Teyrnged**

Bu farw Carwyn Daniel yn dawel yn Ysbyty Bron-glais nos Sadwrn Hydref 12. Hoffwn fel teulu ddiolch o galon i bawb am eich gofal ohonom yn ystod y cyfnod yma. Mae pob gair a gweithred wedi bod yn gysur mawr. Cafodd wasanaeth hyfryd yng Nghapel Pen-llwyn dan ofal y Parchg Ifan Mason Davies gyda Nerys ei chwaer yn talu teyrnged arbennig iddo. Mawr yw yr hiraeth.

# Teyrnged Nerys i Carwyn ei brawd

Ganwyd Carwyn yn Ysbyty Bron-glais ar y 12fed o Ionawr 1980. Cafodd ei eni â nam ar ei feingefn (spine) - sef y cyflwr Spina Bifida. Ef oedd plentyn cyntaf Beti a Gareth a heb yn wybod i mam roedd ei chwaer Llinos wedi cael bachgen bach yn Ysbyty Glangwili hanner awr ynghynt.

Cafodd Carwyn sawl llawdriniaeth yn fabi; treuliodd lawer o amser yn Ysbytai Caerdydd a bu Ward Angharad ( Bron-glais) yn bwysig iawn yn ei fywyd gyda Dr. Lewis yn arwain y ffordd. Pan oedd yn ddyflwydd a hanner aeth i Ysgol Feithrin Pen-llwyn lle roedd Heulwen Lewis yn gweithio. Bu hi\n gofalu amdano yn Ysgol Pen-llwyn ac ym mlynyddoedd cynnar Penweddig. Datblygodd cyfeillgarwch a barodd tan y diwedd. Alle fe byth wedi cael neb gwell; roedd fel ail fam iddo.

Ym Mhen-llwyn roedd hi yn frwydr barhaus iddo dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Addaswyd peth ar yr adeilad a chafodd flynyddoedd hapus iawn gyda Mr Martin Davies, y prifathro cyntaf gan wneud ffrindiau da. Mr. Martin Davies oedd y prifathro cyntaf, yr athrawes ddosbarth Mairwen Williams, dosbarth dau gyda Mair Griffiths ac yna dosbarth y prifathro Geraint Davies. Tra yno datblygodd ei gariad at bêl-droed; Aeth mam ag ef i bob gêm ar fore Sadwrn yn gefnogwr brwd i r bechgyn. Roedd Geraint Davies yn dweud nad oedd y bechgyn yn chwarae yn dda os nad oedd ef yno.

Yn 1984 dyma'r byd yn newid yn go iawn. Ganwyd merch hynod o annwyl i Gareth a Beti a chwaer fach i Carwyn. Yn 1985 symudom fel teulu o Goginan i Gwmrheidol. Prynodd mam a dad Glynrheidol fu yn gartref cynnes a chlud ar ôl lot o waith. Mae yna lawer o luniau ohono fi a Carwyn yn eistedd mewn berfa tra bod y gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen. Mae pobl Cwmrheidol wedi helpu ym magwraeth Carwyn. Fel mae y Sais yn ddweud mae yn cymryd pentref i fagu plant a Chwmrheidol oedd y pentref hwnnw. Roedd pawb yn hoffi siarad â Carwyn ac roedd ef wrth ei fodd gyda hyn. Yn aml clywyd y geiriau "Mi awn ni am wac", byddem allan am ryw awr neu ddwy a byddem ond wedi mynd rhyw filltir.

Bu Carwyn a fi yn lwcus i gael 3 chefnder - Nia, Aled a Sioned oedd yn byw yn Nhalgarreg gyda chwaer mam Llinos a i gŵr Pete. Rydym yn ffodus iawn ohonynt yn enwedig nawr yn ein galar. Treuliwyd aml i benwythos a gwyliau ysgol yn Nhalgarreg, roedden ni yn mynd o amgylch y pentref ar ein beics a Carwyn yn ei gadair. Roedd pawb yn y penref yn gwneud ffys mawr ohono ac yntau wrth ei fodd.

Aeth Carwyn ymlaen i Ysgol Penweddig lle cafodd barhau gyda'i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd Carwyn yn treulio llawer o amser yn y tŷ gyda Barbara Thomas ac Ian ap Dewi - ei ffrind gorau. Dwi dal ddim yn siwr pu'n o'r ddau oedd â'r jocs gwaethaf!

Pan ddaeth yn amser profiad gwaith trefnodd Mr. Ap Dewi ei fod yn mynd am wythnos i Radio Ceredigion. Aeth yr wythnos yn bymtheng mlynedd hapus iawn. Byddai yn mwynhau ei amser yno yn ateb y ffôn ac yn teimlo yn bwysig fel aelod o dîm.Yn anffodus daeth dyddiau y radio i ben a theimlodd Carwyn wacter mawr yn ei fywyd.

Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach daeth y cyfle i weithio gyda Radio Bron-glais. Arferwn feddwl bod hyn yn rhagorol i un oedd yn casáu Ysbyty cymaint yn codi calon cleifion oedd yn yr Ysbyty. Mi oedd yn cynnal ei sioe ei hun ac adrodd am chwaraeon ac yn cyflwyno canlyniadau y gêmau. Roedd wrth ei fodd yn gwneud hyn.

O'r ysgol aeth ymlaen i Goleg Ceredigion lle bu yn dysgu sgiliau cyfrifiaduron.Yna ymlaen i Goleg Derwen yng Nghroesoswallt. Coleg i'r anabl oedd hwn. Dyma y tro cyntaf i Carwyn adael Cwmrheidol a dysgwyd iddo fod yn annibynnol. Roedd dad a mam un step ar y blaen bob tro mi wnaethant ddechrau paratoi y ffordd iddo symud i gael bywyd annibynnol yn Clos Sulien, Llanbadarn.

Pan oedd yn yr ysgol cychwynnodd Carwyn fynd i wylio Clwb Pêl-droed Aberystwyth yn chwarae yn eu gêmau cartref. Byddai y stiwardiaid yn agor y gat iddo ac yna byddai yn mynd i mewn ar ei ben ei hun tra bod mam a fi yn siopa. Teimlen ei fod yn ddiogel yno roedd y clwb mor ofalus ohono ac am hynny byddwn am byth yn ddiolchgar. Nid oedd hi byth yn oer yng Nghoedlan y Parc ond byddai ei dad yn eistedd ar ben y Rayburn am amser ar ôl dod adre ar ambell i noson oer. Mae ein dyled i Glwb Pêl-droed Aber yn enfawr, diolch am eich gofal ohono.

Daeth yn amser i Carwyn symud i'r dref a bu dad yn gweithio gyda y tîm i gael y tŷ yn addas at ei anghenion. Bu fyw yng Nghlos Sulien am dros ugain mlynedd. Roedd ganddo dîm o ofalwyr gofalus a fyddai yn mynd ag ef ar wyliau ac yn rhoi bywyd cymdeithaol da iddo. Un gofalwr a oedd yn mynd y filltir ychwanegol oedd Lee a wnaeth ofalu ar ei ôl am 14 mlynedd. Roedd fel brawd iddo diolch o galon i ti Lee.

Gwnaeth Mencap gefnogi Carwyn am dros ugain mlynedd; Roedd wrth ei fodd yn Clos Sulien a byddai yn aml yn dweud wrthon ni ein tri os nad oeddwn yn hoffi rhywbeth yn y tŷ byddai yn well i ni fynd adref. Yr ateb oedd "Tŷ fi yw hwn." Gwnaeth clwb Gateway chwarae rhan bwysig yn ei fywyd, roedd wrth ei fodd yno ac yna yn mynd i McDonalds ar ei ffordd adref.

Trwy ei fywyd mi gafodd dros 30 o lawdriniaethau, roedd mam yn gwybod sut i bacio bag ac wedi aros mewn ambell i ystafell amheus yn yr ysbytai. Rydym yn ddiolchgar iawn i Rhiannon Carno am bob amser gynnig ystafell i mam aros pan yng Nghaerdydd, Roedd hi wastad yn bleser i fynd i Carno at Anti Llinos

ac Wncwl Stephen, Llinos yn gwneud ffys o Carwyn a fi yn siarad am y ceffylau gyda Wncwl Stephen.

I fynd yn ôl at y chwaraeon yn ddiweddar dechreuwyd tîm i'r anabl gan y clwb pêl-droed, sef Aber Stars. Byddai Carwyn yn mynd i ymarfer ac wrth ei fodd yn mynd ar y bws i dwrnament. Cafodd fedal ac roedd wrth ei fodd yn ei dangos i bawb. Diolch yn arbennig i'r gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yn galed fel bod hyn i gyd yn digwydd. Bu eleni yn flwyddyn fawr iddo; roedd wedi dioddef gyda pressure wound ac wedi gorfod treulio llawer o amser yn ei wely. Mi fu y nyrsys cymunedol yn wych gyda Sister Sonia a Vicky yn arwain y tîm. Roeddent yn mynd i'r tŷ bob dydd ac yn gwneud iddo chwerthin; roedd eu gofal ohono yn arbennig. Diolch o galon.

A dyma fy amser i i ddechrau brwydro. Cefais afael ar arbenigwr a fyddai yn fodlon rhoi llawdriniaeth i Carwyn i gau y clwyf. Yr un nyrs oedd yn gofalu ar ei ôl yn Ysbyty Treforys eleni a oedd wedi gofalu ar ei ôl yn Ysbyty Cas-gwent tua 30 mlynedd yn ôl. Gwnaeth hi adnabod Carwyn, roedd pawb yn ei gofio. Yn ystod y cyfnod yma roedd rhaid mynd yn aml i Adran Damweiniau Brys Ysbyty Bron-glais, cymaint â 14 o weithiau mewn 9 diwrnod. Bu rhaid eistedd am oriau yno ond roedd y gofal a gafodd yno yn anhygoel. Roedd yn mynd yn sâl iawn gyda haint ar y dŵr. Unwaith roedd wedi gorfod mynd yno ar ddydd Mercher ond erbyn dydd Gwener roedd yn daer eisiau mynd allan er mwyn cael mynd i ginio Sioe Capel Bangor. Mi enillodd y frwydr ar yr amod ei fod yn mynd yn ôl i'r Ysbyty os byddai yn gwaethygu. Aethom yn ôl i Clos Sulien, dillad glân a bant a ni ein dau i'r ginio, sioc ofnadwy i mam a dad!!

Ym mis Mawrth eleni cafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Treforus pryd y bu rhaid iddo aros yn y gwely am dair wythnos. Bu y tri ohonom yn cymryd ein tro i fod gydag ef bob dydd. Mae dad a fi yn methu deall sut na'n daliwyd yn gor yrru, roedd mam yn sefyll yn y lôn araf!! Roeddem yn lwcus iawn o Gareth a Mary yn Llandeilo gyda'u croeso anhygoel. Roedd teulu Talgarreg hefyd yn handy iawn i gael pit stop ar y ffordd adref ac yn cymryd eu tro i ymweld â Carwyn yn yr Ysbyty. Erbyn hyn mae y genhedlaeth nesaf yn ein cefnogi, yn chwarae gêmau wrth ochr ei wely ac yn meddwl y byd o Carwyn.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r genhedlaeth hŷn – Wncwl Gareth a Rhyda am eu cwmni. Roedd Carwyn wrth ei fodd yn sgwrsio â chi ac yn hoff o dynnu coes.

Pan oedd Carwyn yn yr Ysbyty roedd gwylio gêmau pêl-droed yn bwysig iawn. Roedd yn gefnogwr brwd o Glwb Lerpwl, byddai yn gwylio pob gêm, gwylio eto a gwylio yr holl ddadansoddi ar ôl y gêm! Un noson pan yn yr ysbyty roedd y gêm yn dechrau am 7. Cefais wybod bod yn rhaid i mi adael 10 munud cyn y kick off roedd rhaid cael llonydd i wylio y gêm.





Allan a fi gan rybuddio y nyrsus bod hi yn well i Lerpwl ennill. Cefais neges o'r ward y bore wedyn nid oedd Carwyn mor hapus ond roedd ei obs yn normal, Mi wnes i ffonio Carwyn roedd ei hwyl yn wan ac yn eithaf pigog, roedd Lerpwl wedi colli. Mi ffoniais y ward ac mi roedd y nyrsus yn falch i glywed y rheswm dros yr hwyl wan. Roedd pob amser yn gwrtais gyda y staff.

Cafodd ei lawdriniaeth ar Fawrth 12fed a'i gwestiwn mawr oedd a fyddai wedi gwella erbyn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf. Os nad oedd yn mynd i wella erbyn hynny nid oedd eisiau y llawdriniaeth, trwy ryw ryfedd wyrth mi wnaeth wella yn llwyr heb ddim cymlethdodau. Cafodd fynychu y Sioe a bu hon yn Sioe arbennig iddo. Roedd bob amser yn fy nghefnogi i yn y sioeau bach a byddai yn cael ei alw yn groom. Y Sioe Frenhinol a Sioe Capel Bangor oedd y ddwy sioe special. Byddai yn mynd bob blwyddyn, mynd drwy y gatiau a gweiddi ar dad a mam a Dei Tŷ Poeth ar fore dydd Llun "welai chi wedyn". Mi roedd app y Sioe ar ei ffôn a byddai yn gweithio allan ble roedd am fynd yn ystod y dydd ac yn ffonio mam a dad i gyfarfod am fwyd. Ei hoff le oedd y bandstand yn gwrando ar gerddoriaeth ac yn gweithio ei ffordd yn ôl i'r prif gylch i fy ngwylio i yn cystadlu. Roedd hyn yn bwysig gan mai ef fyddai wedi golchi cynffon y ceffyl! Byddai allan gyda fi bob Sul cyn y Sioe yn helpu gyda y paratoi ac wrth ei fodd, roedd yn mwynhau fy ngwylio fi a phobl leol yn cystadlu ac yn edrych allan i weld Dafydd a Sian, Neuadd Parc, yn rhedeg o amgylch y ring.

Eleni oedd ei flwyddyn ef. Cafodd wahoddiad gan y Sioe Frenhinol i dderbyn y saliwt ar ôl perfformiad o Pasiant Ceredigion brynhawn dydd Mercher – prynhawn y cobiau. Fi yn bwysig oedd ei eiriau, Ef oedd y person anabl cyntaf i gael y fraint anhygoel yma. Mi wnaeth wafio ei hat fowler gyda balchder ac roedd yn cofio am hyn yn ystod ei oriau olaf.

Roedd ei fywyd yn llawn a mi roedd mor brysur fel nad oedd ganddo lawer o amser i gael pryd o fwyd gyda mi! Ond bob nos Sul roedd rhaid cwrdd â dad a mam. Cerdded milltiroedd o amgylch Aberystwyth, mynd ar hyd y prom a chael paned o goffi cyn mynd adref.

Nos Iau 10fed o Hydref cefais alwad ffôn gan un o'i ofalwyr "Carwyn is not well". Es i lawr yn syth, roedd y gofalwr eisiau galw ambiwlans ond "I want to wait for my sister "oedd ei eiriau. Aethom i Bron-glais ar frys a phan ofynnodd y staff iddo "how are you" ei ateb oedd "I am not well but how are you", Cafodd ei gadw i mewn a'i roi ar drip ac antibiotics. Fi yn aros gyda fe drwy y nos a mam a dad i mewn yn y bore. Dyna oedd y drefn ond yn anffodus prynhawn Sadwrn nid oedd Carwyn yn dilyn y drefn ac yn sydyn prynhawn dydd Sadwrn bu farw yn fy mreichiau gyda mam a dad wrth ei ochr. Mae byd ein teulu bach ni wedi ei chwalu, mam a dad wedi colli mab addfwyn ar ôl brwydr hir i sicrhau bywyd mor normal a phosib iddo a mi wnaethant job dda. Cafodd fywyd llawn, Bu yn America, Paris, yn dringo creigiau, allan ar y dŵr yn kayakio a mynd i Lerpwl i wylio gêmau a Duw a ŵyr beth arall. Nid wyf i yn gwybod beth yw bywyd heb Carwyn ac mae yn anodd meddwl am fyw hebddo. Mae yr angladd heddiw yn deyrnged i'w fagwraeth.

Mae Aled ac Alwyn yma ar ran teulu Talgarreg, Andrew ar ran yr amserau hapus gyda Margaret ac Eric yn Erw deg, Gerwyn a Rhian am yr amser da fel plant yn y Cwm, Y Parchg Ifan Mason Davies am ei ofal tyner o Carwyn yn blentyn ifanc. Bu Carwyn ar sawl gwyliau gyda Wncwl Ifan ac Anti Myf., Eirian a Menna am yr amser yn Clwb Trisant lle roeddent yn gwneud yn siwr fod Carwynyn cael ei gynnwys yn y gweithgareddau, hyd yn oed actio ar lwyfan Theatr Felin-fach., ac wrth gwrs Nia y chwaer answyddogol.

Nid dim ond ein byd ni sydd wedi cael ei ysgwyd ond ein pentref, ein cymuned a thref Aberystwyth. Ni wnaethom erioed feddwl bod Carwyn mor boblogaidd.

Ar ran y teulu hoffwn ddiolch i chi i gyd am chwarae rhan ym mywyd Carwyn. Bu fyw ei fywyd yn ceisio gwneud eraill yn hapus; trin pawb yr un fath, gwers y gallwn ni i gyd ddysgu oddi wrtho.

Diolch Carwyn am fod fy number one supporter, Ti oedd fy rhif un i ond pêl droed oedd dy rif un di.

Byddai wrth ei fodd yma heddiw yn cael y sylw yma.Motto Carwyn a fi oedd "here for a good time not a long time" ond mi hoffwn y byddai wedi bod yn hirach.

Fel hyn oedd hi i fod.

**Nerys Daniel**

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau calonog i Nuala Ellis Jones ar ei dyweddiad a Ben Llewellin o ardal Hwlffordd, Sir Benfro. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Pen blwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau i Mr. Tom Davies, Melindwr Teras a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ym mis Tachwedd, Ble mae'r blynyddoedd wedi mynd dwedwch, dymuniadau da hyderwn y bydd yr iechyd yn garedig wrthych ymlaen.

Ym mis Medi fe ddathlodd Alistair Dryburgh, Maes Melindwr ben blwydd sbesial a bydd Elystan Evans, Cwmwythig yn dathlu'r un pen blwydd ym Mis Tachwedd. Fel eich ffrindiau a'ch cymdogion hoffem ddymuno pen blwydd hapus iawn i chi eich dau a chofion cynnes.

**Ymddeoliad**
Dymuniadau gorau i Miss Delyth Davies, Maencrannog ar ei hymddeoliad o Ysgol Gynradd Pen-llwyn. Gwelem Delyth yn cerdded, gaeaf a'r haf yn gynnar yn y bore er mwyn cyrraedd yr ysgol erbyn wyth o'r gloch. Ni fydd rhaid codi mor fore o hyn allan. Bydd yr ysgol, a oedd mor agos at eich calon, yn gweld eich eisiau siwr o fod. Diolch yn fawr am y cyfan a wnaethoch er lles yr ysgol. Mwynhewch eich rhyddid, pob bendith a dymuniadau da.

Fel mae llawer ohonoch yn ymwybodol, rydym fel arfer wrthi'n brysur ar y cynhaeaf olewydd yr adeg yma o'r flwyddyn. Yn anffodus, nid eleni. Wedi cyrraedd y ffarm ychydig ddyddiau yn ôl, mae'r sefyllfa gynddrwg ag yr oeddem wedi ofni: nid oes gennym unrhyw olewydd werth sôn amdano ac ni fydd gennym unrhyw gynhaeaf. Roedden ni'n amau cymaint ym mis Mai, pan allwn weld y blodau a'r blagur yn gwywo yn y gwres dwys a'r sychder hirdymor.

Tydi fawr o gysur i wybod ein bod ni mewn cwmni da – mae ein cymdogion i gyd mewn sefyllfa debyg. Rydym ar ddeall nad oes cynhaeaf sylweddol yn unman o fewn radiws 30-cilometr ohonom, ac efallai na fydd y melinau olewydd lleol yn trafferthu i agor eleni.

Os oes gennych rywfaint o'n holew olewydd ar ôl: y dyddiad 'Ar ei Orau Cyn' ar gyfer olew cynhaeaf llynedd yw diwedd Awst 2025, felly does dim brys i'w ddefnyddio. (Wrth gwrs, bydd yn dda ac yn saff i'w ddefnyddio ar ôl y dyddiad yma cyn belled â'i fod wedi'i gadw fel yr argymhellir: oddi wrth y golau a'r haul, gyda'r botel ar gau).

Mae'n ddrwg gennym i fod yn anfon newyddion siomedig, ond yn meddwl y byddai'n well rhoi gwybod i chi rŵan yn hytrach nag yn hwyrach. (Rydym yn ymwybodol bod llawer ohonoch yn prynu ein holew olewydd fel anrhegion Nadolig i ffrindiau a pherthnasau. Gobeithio bod hyn yn rhoi digon o amser i chi allu meddwl am rywbeth arall i brynu iddynt!)
Gyda dymuniadau gorau,
Helen a Selwyn
Olew Olewydd Dihalog Tŷ Bach Twt



## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Hydref 17 dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Sarah Hughes.
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Medi 2024 fel rhai cywir.
Trafodwyd adroddiad yr archwilydd allanol am gyfrifon 2023/2024.
Yn ystod y cyfarfod penderfynwyd ar gyllideb 2025/2026.
Penderfynwyd na fyddai codiad yn Praesept 2025/2026.
Cytunwyd y byddai y Cyngor Cymuned yn cyfrannu £500 tuag at ddiffibriliwr yn Hen Goginan gyda Chymdeithas Goginan yn ariannu y gweddill.
Atgoffwn fod Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau am grantiau bychain oddi wrth fudiadau lleol i gefnogi prosiect neu weithgaredd. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

- Amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd a'i fudd i'r ardal neu i'r brodorion.
- Manylion o gyllid y prosiect / gweithgaredd a pha elfennau y mae y cais yn ei ariannu.
- Copi o fantolen ariannol diweddar y mudiad.

Mae angen danfon y ceisiadau i Lynne B Davies (Clerc Cyngor Melindwr), ebost cyngormelindwrcouncil@gmail.com. Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Rhagfyr 31 2024. Bydd y ceisiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod Ionawr 2025.
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Tachwedd 21ain 2024 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor.

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

YTincer@googlemail.com

# Trefeurig

**Dymuniadau gorau**
Llongyfarchiadau mawr i Ffion Wyn Roberts, o Tyngelli, sydd wedi ei phenodi yn Bennaeth Adran Ymarfer Corff, Ysgol Gyfun Aberaeron. Pob hwyl iddi yn ei swydd newydd. Da iawn ti.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Ffion Wyn Roberts a Lewis Ellis-Jones, Tyngelli (gynt o Bow Street) ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Gan ddymuno bob hapusrwydd iddynt.



**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*9.00-4.30*
*Sul: Ar gau*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

# Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth, 17 Medi** yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd yr holl aelodau'n bresennol (heblaw am Lowri Emlyn a oedd wedi anfon ymddiheurad) ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir.

Materion yn codi: Maes Seilo – dim gwybodaeth bellach. Y wefan – y Clerc i holi am ddyddiadau addas ar gyfer rhoi hyfforddiant I'r aelodau. Yr hysbysfwrdd ger y Swyddfa Bost – roedd Aled Jones wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr hysbysfwrdd. Roedd y Clerc hefyd wedi gofyn iddo ddifa'r chwyn oedd ar ochr y ffyrdd drwy'r pentref, gan na fyddai'r Cyngor Sir yn gwneud hyn bellach. Penderfynwyd hefyd y dylid gofyn iddo drefnu fod step yn cael ei gosod er mwyn medru cyrraedd y fainc ar fanc y Cwrt, a sicrhau fod y clawdd wrth ymyl map y pentref yn cael ei dorri. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir am y tyllau yn y ffordd yng Nglanceulan, twll ger y fynedfa i War y Garth, a gordyfiant wrth y sticil yng Nghefn Llwyd.

Cynllunio: cais A240570, newidiadau ym Mrynmeurig, Penrhiwnewydd – dim sylwadau.

Cyfarfodydd a fynychwyd: Pwyllgor y Neuadd – adroddwyd fod Ann James, Ysgrifennydd y Neuadd, wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor. Cartref Tregerddan – roedd y Cyngor Sir wedi penderfynu cau'r cartref, ond nid oedd dyddiad pendant eto. Dywedodd Gwenan Price y byddai gŵyl gwrw yn cael ei chynnal ar 28 Medi yn y Neuadd i godi arian at PATRASA.

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth, 16 Hydref** yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd Delyth James, Shân James, Eirian Reynolds a Meirion Roberts yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y pum aelod absennol.

Materion yn codi: Y wefan - trafodwyd y dyddiadau ar gyfer hyfforddiant. Goleuadau stryd – roedd y Clerc wedi trafod gyda'r Cyngor Sir ac wedi derbyn cadarnhad nad oedd grantiau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer goleuadau newydd. Felly penderfynwyd gohirio penderfyniad ar y bwriad o gael golau newydd ger Maes yr Efail. Adroddwyd fod y tyllau yn y ffyrdd yng Nglanceulan a ger mynedfa Gwar y Garth wedi cael eu llenwi.

Gohebiaeth: Gwahoddiad i gyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Swyddogion Cyngor Ceredigion ar 26 Tachwedd – y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i fynychu. Roedd cadarnhad wedi'i dderbyn y byddai'r gwaith ar ail ran y llwybr beicio a cherdded, sef y rhan o Gomins-coch hyd at y tro am Benrhyn-coch, yn cychwyn yn fuan ac y gobeithid ei orffen yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Croesawyd y newyddion hwn. Roedd llythyr wedi dod gan Lowri Emlyn yn cynnig ei hymddiswyddiad o'r Cyngor. Diolchwyd i Lowri am ei gwasanaeth, a dymunwyd yn dda iddi hi a'r teulu.

Sul y Cofio – trafodwyd y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio.

Adroddwyd fod Caryl Gruffydd Roberts, y Cynghorydd Sir, wedi trefnu i aelodau o'r Cyngor gael mynd i weld y tai newydd ar safle Gwar y Garth. Roedd Gwenan, Shân, Eirian, Meirion a Richard wedi llwyddo i fod yno ac wedi cael taith o gwmpas y safle gan y swyddogion oedd yn gyfrifol am y gwaith. Roedd wedi bod yn gyfarfod diddorol iawn.

## Goginan

**Marathon Eryri**

Llwyddodd Ioan Bebb, Blaendyffryn gynt, redeg y Marathon yn yr amser o bedair awr ag un deg pedwar o funudau. Hon oedd ei Farathon gyntaf, tybed a welwn ef yn gwneud rhai eraill?

Llongyfarchiadau iddo.

**Cymdeithas Gymunedol Goginan**

Roedd torf dda o bobl yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Gymunedol Goginan ar 23 Hydref. Diolchodd Mike Pitcher, y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor a phawb sydd wedi helpu yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd diolch arbennig i Nigel a'i deulu am adael i ni gyfarfod yn Nhafarn y Druid ac am gadw'r dafarn fynd fel calon gref yng nghanol bywyd y pentref.

Atgoffodd y cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf. Cynhaliwyd sesiynau 'Knit and Natter' a Siarad Cymraeg pob yn ail ddydd Mercher yn ystod misoedd y gaeaf. Mae pawb wedi mwynhau sgyrsiau a darlithoedd yn Nhafarn y Druid, gan gynnwys un ar famaliaid morol ym Mae Ceredigion a dau ddangosiad o ffilm bywyd Goginan yn y 1950au gan Aled Bebb yng Ngoginan.

Roedd y Proms yn y Cae ym mis Mai yn llwyddiant mawr ac fe wnaeth y pentref godi £1,400. Rhoddwyd £700 i Ward Meurig, Ysbyty Bron-glais a £700 i wasanaeth Chwilio ac Achub Aberdyfi. Roedd amrediad gwych o fandiau ym Mharti Goginan (Gogstoc) ym mis Gorffennaf a chafodd pawb amser da, er gwaetha'r tywydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl fandiau a cherddorion am eu cefnogaeth i'r ddau ddigwyddiad.

Dyfarnwyd grant i'r Gymdeithas Gymunedol gan gronfa 'UK Levelling Up'. Defnyddiwyd hyn i wneud gwelliannau i'r sied, prynu canopi newydd i'r llwyfan, goleuadau i'r parti a llawer o bethau eraill a fydd yn sicrhau bod Goginan yn parhau i fod yn lle gwych i fyw.

Oherwydd gweithgareddau codi arian ar wahân, erbyn hyn mae digon o arian ar gael i brynu ail ddiffibriliwr. Bydd hyn yn cael ei osod lawr wrth y groesffordd ar waelod y pentref.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur gyda llawer o achlysuron hapus. Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn lle rydym wedi colli rhai aelodau annwyl iawn o'n cymuned, gan gynnwys John a oedd yn gyn-gadeirydd Cymdeithas Gymunedol Goginan. Rydyn ni'n cofio'r rhai sydd ddim gyda ni bellach ond gallwn ddathlu bod yn rhan o gymuned sy'n ein helpu ni i gyd drwy'r amseroedd hapus a'r trist.



**Anne Bennett; Andre Davies, Mike Pitcher, Colin Armstrong a Jan Armstrong yn rhoi siec i Bridget Hotwood swyddog codi arian ar gyfer elusen Ysbyty Bron-glais.**

## Llandre

**Croeso adref a dathlu pen-blwydd**

Croeso adref i Gwenda James, Goleufryn ar fod yn ysbyty Bron-glais. Hefyd dylid nodi bydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 23ain o'r mis.

**Penblwydd arbennig**

Pen blwydd hapus i Geraint Williams, Tyddyn Llwyn ddathlodd ei ben blwydd yn 50 ar 15 Tachwedd.

**Cydymdeimlad**

Trist yw cofnodi marwolaeth Roger Haggar, Sycamore, Llandre ar ôl cystudd hir. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu. Cynhelir yr angladd dydd Gwener 29 Tachwedd am 13.00 yn Eglwys Genau'r-glyn.

**Arian wedi ei sicrhau i'w fuddsoddi yng nghyrtiau tennis llandre**

Bydd Cyngor Cymuned Geneu'r Glyn yn cychwyn ar fuddsoddiad newydd cyffrous yn y cyrtiau Tennis yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Gymunedol Cynnal y Cardi (UKSPF) a reolir gan Dîm Cynnal y Cardi, Cyngor Sir Ceredigion. Bydd y cyrtiau yn cael eu hadnewyddu dros y misoedd nesaf yn dilyn dwy flynedd o waith paratoadol yn archwilio'r posibiliadau, a sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wireddu'r prosiect.

Mae cyfuno nawdd yn galluogi'r ased cymunedol allweddol hwn i gael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; 'Cyllideb Arian i Bawb' Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cronfa Cynnal y Cardi, ynghyd â chyfraniad gan Gyngor Cymuned Genau'r Glyn, sy'n rhoi cyfanswm o bron i £80k.

Ychwanegodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Geneu'r Glyn, Peter James: "Rydym wrth ein bodd bod ein gwaith caled yn ceisio adnabod a chael mynediad at y cyllidebau perthnasol yn ein rhoi mewn sefyllfa i fuddsoddi yn y cyrtiau sydd bellach yn dangos eu hoedran, ac angen eu hadnewyddu.

"Hoffwn ddiolch i'n partneriaid sy'n ariannu'r fenter yn ogystal â sefydliadau fel Tennis Cymru a We Do Tennis, sydd wedi cefnogi ein hachos a darparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr ers cychwyn y prosiect.

"Yn ddiweddar fe wnaethom ddiogelu dyfodol Parc Llandre a'r Cyrtiau Tennis trwy brydles newydd 21 mlynedd gyda Chyngor Sir Ceredigion. Mae hyn yn gosod sail gadarn er mwyn parhau i fuddsoddi yn yr ased lleol pwysig hwn sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth, nid yn unig gan drigolion lleol, ond hefyd gan gymunedau ehangach gogledd Ceredigion."

Bydd y prosiect yn cynnwys ffensys a gatiau newydd yn ogystal â pharatoi arwyneb chwarae newydd ynghyd ag adnewyddu'r waliau allanol.



# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Saif *Dorglwyd* ar fin y briffordd sy'n arwain o Bow Street i'r Waun-fawr, gyferbyn â'r troad am Gomins-coch ar waelod Rhiw Siôn Saer (SN61598260). Er mai dim ond tŷ sydd yno heddiw, roedd unwaith yn fferm gyda'r tai allan wedi eu lleoli y tu isaf i'r ffordd lle mae'r llwybr beics wrthi'n cael ei greu.




**Tai allan Dorglwyd yn 2001 yn fuan cyn eu dymchwel. Llun trwy garedigrwydd Archifau Prifysgol Aberystwyth.**

*Tythyn Dorrglwyd* yw'r ffurf a geir yn yr enghraifft gynharaf o'r enw, a hynny yn un o weithredoedd Stad Gogerddan yn 1607.[1] Erbyn 1726, dengys ewyllys 'Evan Richard of Dorglwyd' bod y label *tyddyn* wedi ei ollwng.[2] Parodd y sillafiad yn hollol gyson ar hyd y canrifoedd er hynny.

Nid oes amheuaeth felly nad *dorglwyd*, cyfuniad o'r elfennau *dôr* 'drws' a *clwyd* 'hyrdlen, llidiard', sydd yma. Math o hyrdlen symudol oedd hon a ddefnyddid gynt i gau mynedfa i adeilad neu gae; nid un yn hongian ar golynnau, ond yn hytrach gosodid ei rheilsen uchaf i orffwys ar byst fforchog.

Fel mae'n digwydd, elfen mewn enw lle yw'r enghraifft gynharaf a geir ar glawr o'r gair. Wrth gofnodi ffiniau Llandeilo'r-fân, Brycheiniog, yn Llyfr Llandaf (a ddyddir i hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif) sonnir am le o'r enw '*porth idorcluit*' (*Porth y Dorglwyd*). Ceir enghraifft arall o *Dorglwyd* fel enw fferm i'r gogledd o Ysbyty Treforys ar gyrion Abertawe.

A dychwelyd at *Dorglwyd*, Ceredigion, mae'n hawdd dyfalu iddo dderbyn ei enw am fod un o'r llidiardau arbennig hyn yn cau mynedfa i un o adeiladau neu gaeau'r fferm, ond mae'n werth ystyried posibilrwydd arall.




**Map 6" yr Arolwg Ordnans: Ceredigion VI SW (1886)**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

Nodwyd eisoes bod *Dorglwyd* wedi ei leoli ger Comins-coch, pentref a enwyd ar ôl tir comin na wn ei leoliad i sicrwydd. Gan fod un o fapiau Stad Gogerddan yn 1787 yn nodi mai 'open ground' oedd y llechwedd wrth war *Dorglwyd*, mae posibilrwydd bod y tir hwnnw'n rhan o'r comin gwreiddiol.[3] Ar sail hyn, gellid dadlau bod y clawdd a wahanai'r tir isel amgaeedig oddi wrth y comin agored yn gorwedd yng nghyffiniau *Dorglwyd*. Ategir hynny gan y ffaith mai cyfeiriad at glawdd o'r fath a geir yn yr enw *Penclawddhelyg* am dŷ a saif ychydig yn uwch i fyny Rhiw Siôn Saer.

Felly, yn hytrach na llidiard neu'n hyrdlen yn groes i fynedfa gyffredin, tybed ai un fwy nodedig yn cau bwlch yng nghlawdd y comin oedd dan sylw yn yr enw *Dorglwyd*.

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru a Geiriadur Prifysgol Cymru https://www.geiriadur.ac.uk/**

1. LlGC: GAB 2/6/2 (7).
2. LlGC: SD 1726/59.
3. LlGC: Gogerddan RMC 22.






# Y Borth

**Carnifal yn cefnogi grwpiau lleol**
Mae pwyllgor Carnifal Y Borth wedi rhannu miloedd o bunnoedd rhwng grwpiau a mudiadau lleol yn dilyn cynnal cyfres o ddigwyddiadau llwyddiannus a hwyliog yn ystod yr haf.

Ar ddydd Mawrth 29 Hydref, cafodd cyfarpar arbennig i gynorthwyo gyda'r gwaith o chwilio yn y tywyllwch ei gyflwyno i dîm Gwylwyr y Glannau Y Borth. Hoffai gwylwyr y glannau ddefnyddio'r cyfle hwn i annog mwy o wirfoddolwyr i ddod ymlaen ac fe ddylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â: Area14@mcga.gov.uk. Yn y llun, gweler Brenhines Carnifal 2024, Grace Thomas; Cadeirydd Carnifal y Borth, Carol Bainbridge, a'r Is-gadeirydd, Ian (Ianto) Thomas yn cyflwyno dau fag bothi i gadw cleifion yn gynnes a monociwlar isgoch i aelodau Uned Gwylwyr y Glannau Borth, Michelle Simmons, Derek Nixon a Dave Furby.






Ar ddydd Gwener 1 Tachwedd, cyflwynodd Grace Thomas ddeg monitor pwysedd gwaed i Dr Joseph Akporokah o Feddygfa'r Borth. Hefyd yn y llun y mae Ian (Ianto) Thomas, Is-Gadeirydd Pwyllgor Carnifal Borth a Nathalie Standing, Rheolwraig Meddygfa'r Borth. Bydd y monitorau hyn ar gael i gleifion yn y gymuned i gofnodi eu pwysedd gwaed gartref.

Mae rhoddion gwerth £9000 hefyd wedi'u rhoi i grwpiau, cymdeithasau a sefydliadau lleol eraill.

**Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las**
Daeth cadarnhad gan Gyfoeth Naturiol Cymru y mis hwn eu bod yn bwriadu cau eu canolfan ymwelwyr ar warchodfa natur Ynyslas, ynghyd â chanolfan ymwelwyr Nant yr Arian a Choed y Brenin.

Daw'r penderfyniad yn sgil misoedd o brotestio gan ymgyrchwyr sy'n poeni am effaith y cau ar yr amgylchedd, ar lesiant ac ar yr economi leol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Gymunedol Y Borth am 7yh ar ddydd 25 Tachwedd i drafod eu penderfyniad gyda'r gymuned leol.

**Ysgol Craig yr Wylfa**
Parhau mae ymgyrch rhieni a ffrindiau'r i sicrhau dyfodol Ysgol Craig yr Wylfa, sy'n un o bedair ysgol gynradd mae Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried ei chau.

Mae ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd a dylid anfon ymatebion erbyn dydd Mawrth 26 Tachwedd. Mae manylion y broses ymgynghori i'w gweld ar wefan yr awdurdod lleol.

Os bydd y Cyngor Sir yn



**Ŵyr newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Teresa a Gary o'r Borth ar enedigaeth eu hŵyr bach cyntaf dros yr haf. Mae Aleksandr Llew Davies yn fab i Siôn Davies a'i ddyweddi Simona Rumenova, ac mae'r teulu bach yn byw yng Nghaerdydd.



## Priodasau

Llongyfarchiadau mawr i Felicity Elena Haf a Rishi Kumar ar eu priodas yn Neuadd y Dref, Islington, Llundain, ar 11 Hydref. Cafodd Felicity ei magu yn Bow Street, gan fynychu Ysgol Rhydypennau a Phenweddig cyn mynd i Lundain i ddilyn gradd mewn dylunio ffasiwn. Mae'n gweithio fel dylunydd dillad yn y ddinas ers graddio ac yn ymweld yn rheolaidd â'r Borth lle mae ei mam Haf ap Robert a Joseph Mitchell bellach yn byw. Mae gan Felicity a Rishi ferch fach fydd yn dair oed yn fuan. Dymuniadau gorau iddyn nhw oll.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Karen Stones a Nick Waugh o'r Borth a briododd ym Mhortmeirion ar 8 Hydref.



penderfynu cau Ysgol Craig yr Wylfa, byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Gynradd Tal-y-bont ym mis Medi 2025.

**Calan Gaeaf**

Yn ystod hanner tymor, daeth dros 300 o bobl ynghyd yn y Neuadd Goffa Gymunedol ar ddydd Mawrth 29 Hydref i glywed Wini'r Wrach yn darllen stori *Room on the Broom* gan Julia Donaldson. Roedd pawb wedi mwynhau'r digwyddiad, oedd hefyd yn cynnwys gweithgareddau celf a chrefft, gwneud diodydd pefriog ac arbrofion gwyddonol.

Ariannwyd y digwyddiad gan y Loteri Genedlaethol ac roedd yn Brosiect Lluosi a gefnogwyd gan Lywodraeth y DU drwy gronfa Ffyniant Bro.



**Ffair Elusennau'r Borth**

Caiff Ffair Elusennau flynyddol Y Borth ei chynnal rhwng 10yb ac 1yp ar ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr yn Neuadd Goffa Gymunedol y pentref.

Dylai grwpiau a mudiadau elusennol sydd am gael stondin gysylltu mor fuan â phosib â Joy ar 01970 871649 neu Pearl ar 07484 295332. Codir tâl o £5 am bob stondin tuag at gostau llogi'r neuadd ayb.

Bydd y neuadd ar agor i stondinwyr osod eu nwyddau rhwng 6.15yh ac 8yh nos Wener 6 Rhagfyr ac eto am 8yb ar y dydd Sadwrn. Fel y llynedd, mae Hwb Cymunedol Y Borth yn creu Groto Nadolig yn y neuadd a bydd ymweliad gan Sion Corn.

**Ffair Grefftau'r Nadolig**

Bydd dros 30 o artistiaid a chrefftwyr lleol yn gwerthu eu nwyddau yn Ffair Grefftau Nadolig Y Borth sy'n cael ei chynnal eleni rhwng 10yb a 4yp ar ddydd Sul 1 Rhagfyr yn y Neuadd Goffa Gymunedol. Ymhlith y stondinau bydd gwaith celf, basgedi, tecstilau, gemwaith, crochenwaith, gwaith coed, canhwyllau, mêl a mwy. Bydd lluniaeth hefyd ar werth yn ystod y dydd, dan ofal tîm BaraBorth.



**Jack Morris; Ray Quant MBE. cadeirydd cangen y Lleng Brydeinig; Anna Coles (a seiniodd y 'Caniad Olaf') a Llywydd cangen a rhanbarthol y Lleng Brydeinig, Mark Williams.**

**Sul y Cofio**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cofio yn Eglwys San Matthew ar ddydd Sul 10 Tachwedd gyda'r Parchedig Philip Wynne Davies yn gweinyddu. Cafodd enwau'r 61 o bobl Y Borth a'r cylch, a golloddd eu bywydau tra'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn ystod y ddwy ryfle byd, eu darllen gan Lywydd y Lleng Brydeinig yn lleol, Mark Williams.

## Newyddion Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Newid wrth y llyw**

Roedd dydd Sadwrn 19 Hydref yn nodi diwrnod o newidiadau yn y clwb gyda dyfodiaid dau gapten newydd ar gyfer 2024-2025. Gwelwyd Alan Shaw a Catrin Pugh Jones yn pytio allan ar y deunawfed twll am y tro olaf fel capteiniaid a Nick Downing a Helen Lewis yn bwrw dreif ar y twll cyntaf fel capteiniaid newydd.

Mae Nick sy'n byw gyda'i deulu yn Aberystwyth yn radiograffydd yn Ysbyty Bron-glais ac mae Helen yn byw yn Ninas Mawddwy lle mae'n rhedeg busnes crochenwaith Oriel Afon Dewi. Dewis elusen Helen am y flwyddyn yw Sepsis UK tra bo Nick yn codi arian tuag at Glwb Bocsio Aberystwyth sy'n gwneud gwaith da yn lleol yn cefnogi pobl ifanc trwy ddatblygu sgiliau hunan ddelwedd a hyder. Gyda'r Clwb yn llawn aelodau a theuluoedd, codwyd £500 i ddechrau'r ymgyrch drwy raffl a chyfraniadau.

Yn ogystal â newid Capteiniaid, roedd Iori Jones hefyd yn cwblhau dwy flynedd wrth y llyw fel Llywydd y Clwb. Mawr yw ein diolch i Iori am ei arweiniad cadarn a didwyll dros y ddwy flynedd diwethaf wrth i'r Clwb fynd trwy gyfnod o newid strwythur. Mae'r awenau bellach wedi trosglwyddo i Mike Roberts sydd, er yn byw yn rhannol yn Iwerddon, yn aelod ers yn fachgen gyda'i deulu cyfan yn chwaraewyr golff o fri.



Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus o golff o dan ein harweinwyr newydd.

**Canlyniadau Adran y Menywod**
**Tlws Dr Aileen Smith**

1af Barbara Flanagan - net 71
2ail Debbie Jones - net 73
3ydd Jean Harrison - net 76

**Pytiwr John Lewis**

1af - Kathy Price - 35 pwynt
2ail Helen Lewis - 35 pwynt
3ydd Jean Harrison - 34 pwynt

**Cystadleuaeth Knockout Deulwyn Morgan i Barau Cymysg**

Cynhelir y gystadleuaeth



boblogaidd yma yn flynyddol er cof am gyn Gapten a Llywydd y Clwb, Deulwyn Morgan. Gyda nifer fawr o barau yn cystadlu eleni, y Capteiniaid Alan Shaw a Catrin Pugh Jones a enillodd y tlws mewn gem agos yn y rownd derfynol yn erbyn Athole Marshall a Jean Harrison. Fe'u gwelir yma yn derbyn y tlws gan Nans Morgan.

# Bow Street

**Suliau'r Garn**
**10.00**
*Tachwedd*
24 Oedfa yn Noddfa d/o y Parchg Richard Lewis

*Rhagfyr*
1 Oedfa yn Noddfa, dan arweiniad y Parch. Richard Lewis.
8 Oedfa dan arweiniad y Parch. Wyn Morris,
15 Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths.
22 Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau.
25 9.00 Gwasanaeth Nadolig.
29 Dim oedfa.

**Noddfa**
*Tachwedd*
24 Y Parchg Richard Lewis

*Rhagfyr*
1 Richard Lewis. Y Garn yn uno.
8 Richard Lewis. Cymundeb.
15 Richard Lewis
22 Richard Lewis
24 Gwylnos Noswyl Nadolig am 11.30yh
25 Uno yn y Garn am 9.00
29 Dim Oedfa.

**Newid Aelwyd**
Croeso mawr a phob dymuniad da wrth i Adrian Evans a`r teulu setlo i lawr yn 15 Maes Ceiro.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlir yn ddiffuant ag Emyr a Mair Jones, Maes y Garn, ar farwolaeth brawd i Emyr yn ddiweddar.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mary Thomas, Tŷ Clyd, ar golli ei chwaer, Elizabeth Evans, Glanwern ar 15 Tachwedd.

**Cofio'r Parch. R. W. Jones**
Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth y Parch. Robert W. Jones nos Wener, 18 Hydref, yn dawel yn Ysbyty Maelor Wrecsam, yn dilyn cryn gystudd. Yn wreiddiol o ardal Llanbedrog, ym Mhen Llŷn, bu'n gweinidogaethu yn ardal y Llidiardau, y Bala, ac yn y Bermo, cyn derbyn galwad i ofalaeth y Garn, lle bu'n weinidog poblogaidd ac uchel ei barch am 12 mlynedd rhwng 1994 a 2006.



Cofir amdano fel cymeriad cadarn a Christion o argyhoeddiad, yn bregethwr grymus, cyfoes ei neges, a roddai bwys mawr ar waith gyda phlant ac ieuenctid, a bugail gofalus. Meddai ar lais canu cyfoethog ac roedd yn hoff iawn o gerddoriaeth o bob math, yn enwedig cerddoriaeth opera, ac ni ellir cofio am Bob (dyna'r enw y dymunai inni ei ddefnyddio i'w gyfarch) heb gyfeirio at ei hoffter o foto-beics cyflym.

Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosfga Pentrebychan, Wrecsam, ddydd Mawrth, 5 Tachwedd, a'i ddilyn gan wasanaeth coffa yng Nghapel y Groes, Wrecsam, dan ofal ei weinidog a'i frawd yng nghyfraith, y Parch. Aled Lewis Evans, lle roedd cynrychiolaeth o'r Garn yn bresennol. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Rhian, ei weddw, a'i feibion, Siôn ac Owain, ei ferch, Cerian, a'r teulu estynedig.

**Cyfeillach Capel Noddfa**
Yng nghariad pobol at ei gilydd,
Yng ngharedigrwydd pobol,
Mai yn rhywle yn fan'no, efallai,
Y mae yr Arglwydd
Yr ydym ni, rai ohonom ni, yn ymdrechu
I ddal i gredu ynddo fo yn bod.

Geiriau Gwyn; oedd teitl Cyfeillach mis Hydref a Gareth William oedd yn gyfrifol am y myfyrdod. Dewisodd Gareth gynnal myfyrdod ar ddetholiad o farddoniaeth ei hoff fardd, sef Gwyn Thomas a chyflwynodd rhai o'r cerddi sy'n ymwneud â chapel, crefydd a Duw. I gychwyn cyflwynodd Gareth fraslun o gefndir Gwyn Thomas a'i fagwraeth ar aelwyd grefyddol ym Mlaenau Ffestiniog, ond fel y dywedodd y bardd ei hunan, nid aelwyd sych dduwiol; Soniodd Gareth am ddyled y bardd i'r fagwraeth honno a dylanwad y Beibl ar ei waith. Fel y dywedodd Gwyn Thomas yn ei hunangofiant: 'Rydw i wedi dal ati i ddarllen y Beibl ar hyd fy oes. A chyn belled ag y mae unrhyw ysgrifennu yr ydw i wedi ei wneud, dyma, o bosib, un o'r dylanwadau pwysicaf un arnaf fi.

Cafwyd cyfle i chwerthin wrth rannu hiwmor y bardd, cyfle i ddwysáu wrth wrando ar ambell i gerdd a chyfle i fyfyrio llawer dros gwestiynau anodd, arwyddocaol a geiriau o ddoethineb. Cafwyd cyfle hefyd i ganu'r ddau emyn o eiddo




Gwyn Thomas sydd yn *Caneuon Ffydd* a Maria yn cyfeilio. Diana sy'n gyfrifol am Gyfeillach mis Tachwedd.

**Datgan diolch**
Yn dilyn marwolaeth diweddar Gwyn Jones, Y Lôn Groes, Bow Street, hoffai'r teulu ddiolch o galon i drigolion yr ardal a thu hwnt am y cardiau o gydymdeimlad, yr ymweliadau caredig i Glyn Têg ac am yr holl gyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at 'Uned Chemotherapy Ysbyty Bron-glais'. Casglwyd y swm anrhydeddus o £1600.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Yng nghyfarfod mis Hydref cawsom gwmni'r milfeddyg Glesni, Llanfihangel-y-creuddyn. Ond dim dyna'r pwnc drafodwyd! Gwnïo a chynhyrchu anrhegion at bob achlysur oedd y pwnc. Beth sydd yn arbennig am yr anrhegion yw bod anerchiadau Cymreig arnynt. Aeth Glesni ati i greu pan gafodd hi'n anodd dod o hyd i gynnyrch Cymreig. Cafwyd arddangosfa anhygoel ganddi a chafwyd cyfle i brynu anrhegion pen blwyddi, priodasau, genedigaeth a Nadolig ac yn y blaen. Noson arbennig.

## GOLEUO BOW STREET DROS Y NADOLIG

**Nos Fawrth 3 Rhagfyr am 6.45**
Carolau a cherddoriaeth gan Ysgol Rhydypennau ac yna mins peis a gwin poeth yn Neuadd Rhydypennau. Croeso i bawb.

# Capel Noddfa

Hyfrydwch yn ystod tymor y cyfarfodydd diolchgarwch traddodiadol oedd cael cyfle i groesawu Ysgol Rhydypennau i gynnal eu Cyfarfod Diolchgarwch yn Noddfa eleni. Cafwyd oedfa fendithiol yn eu cwmni gyda graen arbennig ar y cyflwyniadau. Seiliodd Richard Lewis ei sgwrs fer ar gasgliad o tua saith gwahanol fathau o afalau gan nodi mai afal oedd pob un ohonynt ac esbonio bod Duw yn caru pawb o bobl y byd.

Yna pan ddaeth yn Sul y Cofio cafwyd oedfa i nodi`r achlysur yng ngofal yr aelodau. Richard Lewis oedd wedi paratoi`r sgript ac fe gymerodd Mair Lewis, Beryl Bowen, Hywel Roberts, Maria Owen, Anwen Pierce,Elizabeth Wyn, a Gwynfryn Evans at ei chyflwyno. Gareth William Jones gymerodd at y dasg o enwi y rhai hynny o`r ardal a syrthiodd ar faes y gâd yn ystod y ddau ryfel byd ac sydd a`u henwau wedi eu cofnodi ar gofebau Noddfa, Capel y Garn a Neuadd Rhydypennau. Yr oedd yna bwyslais cryf ar hyrwyddo heddwch yn y sgript hefyd.

**Capel y Garn ym mis Hydref**
Ar Hydref 6ed, Sul cyntaf y mis, ymunodd cynulleidfa'r Garn â chynulleidfa Capel Noddfa mewn gwasanaeth dan arweiniad y Parchg Richard Lewis. Yr wythnos ganlynol y Fns Bronwen Morgan ddaeth i'r Garn i gynnal gwasanaeth; ar Hydref 20fed ymunwyd â chynulleidfa Capel Pen-llwyn mewn Oedfa Gymun dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths, ac ar Sul olaf y mis cynhaliwyd Oedfa i'r Ofalaeth yn y Garn, dan arweiniad Mrs Delyth Morgan Phillips, pryd gwnaethpwyd casgliad at elusen yr Ofalaeth, sef HAHAV.

Ddechrau'r mis, ar Hydref 2il, daeth Cymdeithas y Chwiorydd at ei gilydd ym mwyty Crefftau Pennau i fwynhau cwpaned a sgwrs ac i ystyried gweithgareddau'r tymor sydd o'n blaenau.

Daeth cynulleidfa dda ynghyd yn y capel nos Wener, Hydref 18fed, i agor tymor y Gymdeithas Lenyddol, dan arweiniad y Llywydd, Mrs Brenda Williams. "Cofio Elystan" oedd testun y noson. Dr Huw Williams, o'r Dolau gynt ond bellach o Brifysgol Caerdydd, oedd wedi dod atom i dalu teyrnged i'r Diweddar Arglwydd Elystan-Morgan. Ac yntau wedi ei fagu yn gymydog i Elystan a'r teulu ac wedi golygu ei gyfrol hunangofiant, roedd ganddo stôr o atgofion difyr i'w rhannu â ni. Diolchwyd iddo gan yr Athro Gruffydd Aled Williams.




## Glanwern

**Cydymdeimlad**
Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth Elisabeth Evans, Perllan Hen ganol mis Tachwedd. Cydymdeimlwn â'r merched Catrin a Bethan a'r ŵyr bach Osian ynghyd â theulu y Railway yn Y Borth.

## O Licyris Olsorts i'r RSC

O gychwyn mis Rhagfyr ymlaen bydd Gwyneth Keyworth o'r Lôn Groes, yn portreadu Viola yn y ddrama Nos Ystwyllt (Twelfth Night) gan William Shakespeare ar lwyfan

Theatr Coffa Stratford Upon Avon. Bydd yn dilyn yn ôl troed rhai o fawrion y byd theatr a bortreadodd Viola ar lwyfan Stratford fel aelod o'r Royal Shakespeare Company. Actorion fel Vivien Leigh (Lady Olivier), Dame Dorothy Tutin, Dame Judi Dench, Dame Diana Rigg a Zoe Wanamaker, Jane Lapotaire ac Emma Fielding. Gellir ychwanegu dwy arall sy'n enwog am eu portreadau o Viola hefyd, sef Dame Edith Evans a Dame Maggie Smith.

Bydd yr actores a ddechreuodd actio gyda Chwmni Licyris Olsorts ar lwyfan Neuadd Rhydypennau yn perfformio ar un o lwyfannau enwocaf y byd. Bydd Gwyneth yn portreadu Viola yng nghynhyrchiad ddiweddaraf yr RSC o Twelfth Night ochr yn ochr a Samuel West,

Seren All Creatures Great and Small ar sianel pump, sy'n actio Malvolio.

Mae Gwyneth yn ymuno â chriw dethol arall sef y Cymry hynny sydd wedi chwarae prif ran yn un o gynhyrchiadau'r RSC, actorion fel Richard Burton, Emrys James, Anthony Hopkins a Matthew Rhys. Llongyfarchiadau mawr iddi a llongyfarchiadau hefyd am ei phortread cwbl arbennig o'r fam yn y ddrama deledu diweddar Lost Boys and Fairies.





Tywydd cynnes, heulog ar 22 Hydref yn gwneud iawn am y niwl a glaw yr wythnos ddiwethaf. Diolch i Rees am arwain grŵp Rhydypennau o Ben-dam i Gwmerfyn ac yn ôl uwchben Cwmsymlog. Taith hyfryd gyda golygfeydd gogoneddus cyn i newid y clociau gyfyngu ar ein hanturiaethau i ryw raddau tan y gwanwyn.



# Cylch Cinio



Fe glywn yn aml mai'r "cwsmer sydd bob amser yn iawn". Dyma medde nhw yw sylfaen pob busnes llwyddiannus. Un busnes lleol sydd wedi hen ddysgu'r wers hon yw Gwesty'r Richmond ar y prom a braf iawn oedd bod yn ôl yno ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd o'r Cylch Cinio. Yma mae'r bwyd yn rhagori a'r croeso wastad yn gynnes a'r profiad yn un trwyadl Cymraeg.

Y tro hwn cafwyd cwmni yr unigryw Twm Elias yr amgylcheddwr, naturiaethwr, awdur a llenor o Nebo yng Ngwynedd.

Bu Twm am flynyddoedd yn Ddarlithydd ac yn Drefnydd Cyrsiau ym Mhlas Tan-y-bwlch, Maentwrog ac mae'n gymeriad hoffus a'i ddiddordebau yn eang iawn. Mae ei wybodaeth am ddiwylliant gwerin ac arferion cymunedau gwledig yn eithriadol ac mae diogelu'r tirlun a byd natur a dyfodol amaethyddiaeth o'r pwys mwyaf iddo.

Mae'n adnabyddus dros Gymru fel sylwebydd cyson ar y cyfryngau yn bennaf ar raglenni yn ymwneud â'r meysydd hyn. Yn ei sgwrs fe rannodd gyda ni gyfran o'i stor gyfoethog o straeon o fyd gwerin gan ganolbwyntio yn bennaf ar y cyfnod ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Dyma'r cyfnod cyn y newid mawr yn y bywyd gwledig yn sgil y mecaneiddio a arweiniodd at weddnewid holl fywyd cefngwlad. Roedd ei straeon am fywyd y gweision a'r morynion ar y ffermydd a diwylliant "llofft stabal" yn arbennig o gofiadwy.

Wrth diolch iddo cyfeiriodd Richard Owen, Penrhyn-coch, at gyfraniad nodedig Twm Elias i'r byd cyhoeddi Cymraeg. Bu'n gyfrifol am ysgrifennu a golygu toreth o lyfrau, llyfrynnau a chylchgronau dros y blynyddoedd. Mae ei waith yn gofnod unigryw a gwerthfawr am gyfnod a ffordd o fyw sydd bellach wedi diflannu. Mae wedi cyhoeddi a golygu y cylchgrawn *Fferm a Thyddyn* ers degawdau. Enillwyd y raffl gan John Williams.

Roedd yn braf iawn gweld Tudor Jones, John Williams, Aled Bebb a Gordon Jones yn bresennol yn y cyfarfod -pob un wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbytai yn ddiweddar. Roedd Dafydd Evans yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Mae'r awdures Bethan Gwanas wedi derbyn gwahoddiad i ymuno gyda ni yn ein cinio Nadolig yng ngwesty'r Richmond ar nos Wener Rhagfyr 13eg. Croeso i aelodau newydd gysylltu gyda'r ysgrifennydd huw_williams1@btinternet.com

TWM ELIAS yr amgylcheddwr a'r naturiaethwr oedd y gŵr gwadd yn y Cylch Cinio ym mis Tachwedd. Yn y llun mae Huw Williams, Ysgrifennydd , Twm Elias , Richard Owen, a'r Athro Geraint Vaughan, Cadeirydd.





RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

## Colofn **Ben Lake AS**



Mae'r dail yn prysur grino a'r dyddiau'n prysur fyrhau ond wrth i ni droi ein golygon at y gaeaf sydd i ddod, mae'n argoeli i fod yn dymor digon anodd ac ansicr i nifer o drigolion Ceredigion Preseli a thu hwnt.

Rydyn ni eisoes wedi clywed bod Llywodraeth Lafur y Deyrnas Gyfunol yn wynebu "penderfyniadau anodd" yn sgîl twll du sylweddol yn ei chyllideb. Mae'r Llywodraeth wedi pwysleisio bod angen gwella cyflwr cyllid cyhoeddus, a dyna'r cyfianwhad a roddir dros dynnu'r Taliad Tanwydd Gaeaf wrth bawb, ag eithrio'r pensiynwyr hynny sy'n derbyn Credyd Pensiwn.

Gwyddom o ffigurau'r Llywodraeth y bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar tua 400,000 o aelwydydd ledled Cymru. Yng Ngheredigion Preseli yn unig, bydd dros 21,188 o bensiynwyr yn colli eu Taliad Tanwydd Gaeaf y gaeaf hwn. Mae'r Taliad Tanwydd Gaeaf wedi bod yn ffynhonnell bwysig o gymorth i bensiynwyr yn ystod misoedd caled y gaeaf, ar adeg pan fo miliynau o bobl eisoes yn cael trafferth gyda chostau ynni cynyddol. Yn ogystal â hyn, mae'r penderfyniad yn effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig fel ein un ni, lle mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn dibynnu ar olew neu nwy hylif i wresogi eu cartrefi. Nid yw'r mathau hyn o danwydd yn cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd â nwy a gyflenwir o'r prif gyflenwad ac nid ydynt yn elwa o'r cap ar brisiau yn yr un ffordd.

Ni ddylai'r Llywodraeth fod yn gwthio pensiynwyr ar incwm sefydlog ac isel yn ddyfnach i dlodi tanwydd i dalu am fethiannau cyllidol San Steffan. Dyna pam y pleidleisiais yn erbyn cynlluniau'r Llywodraeth i dorri'r Taliad Tanwydd Gaeaf ym mis Medi, a pham y bydda i a fy nghyd aelodau Plaid Cymru yn galw am ei adfer fel rhan o Gyllideb yr Hydref.

Yn y cyfamser, mae Age Cymru yn cynnig cymorth i'r rheiny sydd ei angen a gallwch gysylltu gyda nhw'n uniongyrchol ar 0300 303 44 98 neu dros e-bost ar advice@agecymru.org.uk. Wrth gwrs, mae croeso i chi hefyd gysylltu â mi ar 01570940333 neu ar ben.lake.mp@parliament.uk.


Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com






Cered: Menter Iaith Ceredigion
Ar Gered
Taith Nadoligaidd
Teithiau Cerdded Cymraeg
Dydd Sul Rhagfyr 15fed
10:00yb
Pont Rhydgaled ger Eisteddfa Gurig
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn yr hen ffordd Gymreig ar y daith arbennig hon o lannau'r Afon Gwy i Nant Rhys, hafoty unig yng nghanol y goedwig lle cawn ganu carolau a bwyta mins peis
Taith 11km ar hyd llwybrau hyfryd sy'n llawn golygfeydd, hanes a natur
Croeso cynnes i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob lefel
Mae cofrestru yn angenrheidiol felly e-bostiwch Steff, arweinydd y daith: steffan.rees@ceredigion.gov.uk.

Trydan WILL DAVEY Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey
NICEIC APPROVED CONTRACTOR

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion – Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd a Diwrnod Shwmae Su'mae**
Dathlwyd diwrnod Shwmae Su'mae a diwrnod coch gwyn a gwyrdd gyda'n gilydd i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol, ynghyd a chodi arian i'r Urdd. Gwisgodd pob un liw coch, gwyn neu wyrdd i'r ysgol a chafwyd ymweliad arbennig gan Mr Urdd!

**Clwb yr Urdd**
Noson hwylus yng nghlwb yr Urdd oedd croesawu Glenys Morgan i ddysgu'r plant am osod blodau mewn ffordd ddeniadol a thymhorol. Diolch i Glenys am ei chefnogaeth a'i pharodrwydd i ddarparu ar gyfer disgyblion. Rhannwyd y blodau a'r pwmpenni gyda'r gymuned. Tybed a welsoch chi nhw?

**Trip i'r afon Stewi**
Fel rhan o'n dysgu tymor yma, bu disgyblion Dosbarth Barcutiaid Coch yn cymryd rhan mewn project gwaith maes ar lannau'r afon Stewi. Diolch i Joe Wilkins am drefnu a chefnogi'r ysgol, wrth iddi fabwysiadau llednant trwy Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru.

**Calan Gaeaf**
Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, bu'n brysur tu hwnt dros Galan Gaeaf. Trefnwyd disgo Calan Gaeaf yn Neuadd y Penrhyn ar gyfer disgyblion - wnaeth pawb fwynhau mas draw. Diolch i Sara Beechey, Liz Curtis, Carolyn Griffiths a Louisa am fod yn bwyllgor mor weithgar, ac i bob un fu'n helpu.

Cafwyd y syniad hyfryd hefyd o gael disgyblion i fod yn rhan o greu helfa Calan Gaeaf o gwmpas y Pentref, gan gasglu map am rodd fechan o garej Tŷ Mawr. Diolch i Jane a Louisa am y syniad, ac am drefnu'r cwbl. Diolch hefyd i fod i un a gefnogodd. Codwyd £58.

**Dosbarth Ji-bincod**
Mae plant derbyn wedi mwynhau ymholi i 'Beth cawn gan ffermwyr?' Cafwyd ymweliad braf gyda Morrisons i addurno bisgedi calan gaeaf, ymweliad i'r becws a blasu cynnyrch gwahanol a siopa ar gyfer blasu uwd a coginio bara, roliau a chacennau bach. Rydym wedi bod yn mwynhau coginio gyda'r nwyddau nol yn yr ysgol. Croesawyd y cogydd Simon i'n helpu i goginio wyau. Casglom archebion, a helpu Simon i baratoi ein brecwast!

Braf oedd cael ymweld a stâd o dai newydd a tywys o gwmpas y tai newydd a cael tro yn y peiriannau mawr!

**Dr Beic**
Diolch enfawr i Alice SUSTRANS am drefnu sesiwn Dr Beic gyda John Burr. Diolch i Louisa, pencampwraig rhiant Teithio llesol am gynorthwyo.








## 'GYDA'N GILYDD GALLWN LWYDDO' – PENRHYN-COCH A PHEN-LLWYN AR Y CYD


**Croesawu'r cylchoedd Meithrin**
Croesawyd Cylch Meithrin Pen-llwyn a Chylch Meithrin Trefeurig i safleoedd y naill ysgol i ymuno gyda phlant oed Derbyn mewn sesiwn stori a chân ar y thema Hydref a ddarparwyd gan Ms Catryn Lawrence y Pennaeth. Braf oedd cael cwmni staff a phlant y cylch i ymuno yn yr hwyl, a hyfryd cael dod i'w nabod.

**Hoci**
Mae timoedd hoci'r ddwy ysgol wedi mwynhau chwarae yn wythnosol ger Canolfan Hamdden Plas-crug dros yr wythnosau diwethaf. Diolch i Miss Rhian Cory a Mr Bryn Shepherd am roi'r cyfle i ddisgyblion.

**Rygbi**
Cafwyd bore llwyddiannus yng nghystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd gyda thîm Merched Blwyddyn 5 a 6 yn ennill 3 gêm ac 1 gêm gyfartal yn ennill y grŵp gan gyrraedd y rownd gynderfynol. Collwyd o drwch blewyn i dîm Ysgol Bro Pedr, ond perfformiad gwych gan y merched. Llwyddiant hefyd i dîm Rygbi cymysg Blwyddyn 3 a 4 a enillodd 3 gêm a cholli 1 i ddod yn ail yn eu grŵp a chyrraedd y chwarteri yn y gystadleuaeth. Da iawn i bob un fu'n cynrychioli'r ysgol.

**Llywodraethwyr**
Cynhaliwyd cyfarfod llywodraethwyr tymhorol cyn yr hanner tymor. Gyda'r tymor newydd daw wynebau newydd i'n plith. Croesawn Lynne Davies ac Eirian Reynolds i'r corff. Diolchwn hefyd i Rob Mills am ei waith, ei gefnogaeth a'i ymroddiad yn ystod







# Ysgol **Pen-llwyn**

**Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd a Diwrnod Shwmae Su'mae**

Dathlwyd diwrnod Shwmae Su'mae a diwrnod coch gwyn a gwyrdd gyda'i gilydd i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol, ynghyd a chodi arian i'r Urdd. Gwisgodd pob un lliw coch, gwyn neu wyrdd i'r ysgol a chafwyd ymweliad arbennig gan Mr Urdd!

**Clwb yr Urdd**

Noson hwylus yng nghlwb yr Urdd oedd croesawi Glenys Morgan i ddysgu'r plant am osod blodau mewn ffordd ddeniadol a thymhorol. Diolch i Glenys am ei chefnogaeth a'i pharodrwydd i ddarparu ar gyfer disgyblion.

**Cogurdd/Poburdd**

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng nghystadleuaeth Poburdd a Chogurdd yr Urdd eleni. Da iawn i Jack ac Ifan a fu'n llwyddiannus ac yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn rownd y Sir ar ddiwedd y mis. Diolch hefyd i'r beirniaid Sara Beechey.

**Ras Hwyl**

Yn anffodus bu'n rhaid gohirio ein Ras Hwyl fel arwydd o barch i deulu a brofodd brofedigaeth yng Nghwm Rheidol. Mae bwriad ail-drefnu'r ras ar gyfer Rhagfyr 15fed ar gyfer Ras Santa! Edrychwch ar y cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth bellach.

Diolch i bawb gyfrannodd/noddodd y digwyddiad. Gwnaed defnydd o'r rhodd o facwn a rholiau trwy gynnal brecwast yn yr ysgol ar fore Mercher Hydref 23ain. Braf iawn oedd gweld cymaint yno o'r gymuned ehangach yn galw am ddiod poeth a rôl bacwn ben bore.

Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ei gweithgarwch a hyblygrwydd wrth newid cynlluniau funud olaf. Codwyd £840 - ymdrech wych!

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Talys Price ar ennill cystadleuaeth arlunio murlun ar gyfer y bont danddaearol yn Llanbadarn ger Blaendolau. Bu Talys yn rhan o beintio'r Murlun dros wyliau'r hanner tymor – mae'n werth ei weld!

Llongyfarchiadau Jack ar ennill cystadleuaeth Jurassic Earth Canolfan y Celfyddydau. Da iawn am ennill 4 tocyn i ti a dy ffrindiau (a mam) fynd i wylio!

ei gyfnod fel Cadeirydd wrth iddo gamu i lawr o'i rôl. Diolchwn i Adrian Price am wirfoddoli i fod yn gadeirydd wrth symud ymlaen.

**Kerbcraft**

Bu disgyblion dysgu sylfaen y ddwy ysgol yn dysgu am groesi'r ffordd mewn modd diogel trwy wasanaeth Kerbcraft. Diolch i Mrs Bethan Evans am drefnu ac i Graham a'r gwirfoddolwyr sydd wedi dod i gynorthwyo.

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8



SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?

# Ysgol Craig yr Wylfa

## YSGOL Y GYMUNED

### Gwasanaeth Diolchgarwch

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu rhieni a ffrindiau i'r ysgol ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch blynyddol a hoffwn ddiolch i bawb oedd wedi dod i gefnogi. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Canon Andrew Loat am ei eiriau pwrpasol ac i'r plant am eu perfformiadau graenus. Diolch i'r staff hefyd am baratoi ar gyfer y digwyddiad ac am y te a'r coffi ar ddiwedd y gwasanaeth. Roedd hi'n hyfryd gallu trosglwyddo llond car o nwyddau i'r elusen Jubilee Storehouse - diolch o galon i bawb oedd wedi gallu cyfrannu.

A diolch arbennig i Jenny am y llysiau a'r ffrwythau, mae pob dosbarth wedi bod yn gwella eu medrau coginio yn ddiweddar.

### Disgo Calan Gaeaf

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o bobl o'r gymuned yn cefnogi ein disgo calan Gaeaf unwaith eto. Roedd yr holl beth yn hynod broffesiynol gyda goleuadau llachar, sŵn anhygoel a pheiriant swigod ardderchog. Diolch yn fawr i aelodau o'r Gymdeithas Rhieni am drefnu ac i bawb wnaeth gyfrannu at lwyddiant y weithgaredd.

## YSGOL ECO

### Ysgol y Goedwig / Ysgol Eco

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn parhau gyda'n gwaith i hyrwyddo egwyddorion pwysig yn ymwneud â'r amgylchedd. Dyma uchafbwynt yr wythnos ac rydym yn cynnal y gweithgareddau ymhob tywydd! Rydym yn ddyledus iawn i Jenny Dingle a Cath Cave am baratoi sesiynau cyffrous ar gyfer y plant gan gynnwys adeiladu den a choginio yn ein ardal arbennig. Dyma farn rhai o'r disgyblion:-

Woody – "Dwi wedi hoffi gwneud y smores. Roedden nhw'n flasus".

Emmy – "Dwi'n hoffi pan fyddai'n coginio. Nes i hoffi gwneud y smores a'r popcorn".

Onno – "Dwi wedi hoffi adeiladu'r den gyda fy ffrindiau. Roedd yn heriol ond yn hwyl".

## SIARTER IAITH

### Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd

I gyd-fynd gyda'n hymrwymiad i'r Siarter Iaith ac i gefnogi Urdd Gobaith Cymru, trefnodd y Criw Cymraeg ein bod yn gwisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd i ddathlu Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd! Roedd y plant hefyd wedi paratoi cacennau hyfryd yn y Clwb ar ôl ysgol i ddathlu'r diwrnod.

Ac yn goron ar y dathliadau, cafwyd ymweliad arbennig ac annisgwyl gyda neb llai na Mr Urdd yn gwibio heibio i ddweud "Helo"! Roedd ymateb y plant yn hyfryd a Mr Urdd wrth ei fodd yn cael cwrdd gyda nhw.

## YSGOL IACH

### Llysgenhadon Efydd

Rydym yn ffodus iawn o gael dau ddisgybl sydd wedi ymroi yn llwyr i'w gwaith fel Llysgenhadon Efydd yr ysgol. Maent wedi trefnu llawer o weithgareddau diddorol i holl blant yr ysgol gan gynnwys sesiynau cadw'n heini a gwersi tenis. Diolch yn fawr i Leighton a Jacob am ein helpu.

### Pont yr Wylfa

Gweithgaredd ddiddorol a drefnwyd ar y cyd gydag Ysgol Tal-y-bont yn ystod y mis oedd Diwrnod Lles. Yn ogystal â chael cyfle i sgwrsio a chwarae, daeth PC Hannah atom i drafod agweddau pwysig o gadw'n ddiogel o gwmpas y tŷ. Roedd ymateb y disgyblion yn arbennig ac roedd PC Hannah yn falch iawn o gyfraniad pawb.















# Ysgol **Rhydypennau**

**Diolchgarwch**

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni ar y 23ain o Hydref yng Nghapel Noddfa y pentref. Yno, ymysg y plant a staff yr ysgol, ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Yn ystod ein gwasanaeth fe gyflwynodd plant blwyddyn 6 neges y Diolchgarwch ac yn ystod y pnawn fe godwyd £200 i Ward Angharad Ysbyty Bron-glais.

Hoffa'r ysgol ddiolch i'r Parchedig Richard Lewis, ein gŵr gwadd am y prynhawn a diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau hael.

**Coginio**

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' a 'Poburdd' yn ddiweddar. Eleni, tasg 'Cogurdd' oedd cyflwyno 'Wrap' a thasg 'Poburdd' oedd coginio ac addurno myffin a cheisio plesio ein beirniad, Wendy Jones, cogyddes yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Mollie Suggett am ennill cystadleuaeth 'Cogurdd' a Beau Davies am ennill cystadleuaeth 'Poburdd'. Pob hwyl i'r ddau yn y rownd nesaf a diolch yn fawr iawn i bob cystadleuydd am sicrhau dwy gystadleuaeth o'r safon uchaf.

**Dathlu Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd**

Ar yr 16eg o Hydref, fe ddathlwyd 'Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd' er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chodi arian i'r Urdd; felly, cafodd y plant gyfle i wisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd i'r ysgol. I ychwanegu at holl firi'r achlysur, cafwyd ymweliad arbennig iawn i'r ysgol wrth i Mr Urdd ddod i'n plith! Roedd y plant yn llawn cyffro! Diwrnod difyr iawn!

**Ymweliadau**

Ar yr 22ain o Hydref, mwynhaodd plant blwyddyn 5 a 6 gŵyl Chwaraeon ar safle'r Brifysgol. Diolch i 'Ceredigion Actif' am drefnu bore egnïol iawn i'r plant. Gan mai 'Amser Maith yn ôl' yw thema'r tymor, aeth plant blwyddyn 1 a 2 i Amgueddfa'r dref yn ddiweddar er mwyn astudio arteffactau amrywiol ac hen bethau diddorol o'r oes a fu. Yn dilyn hyn, fe aeth blwyddyn 2 i'r Llyfrgell Genedlaethol tra aeth plant blwyddyn 1 i Lyfrgell y dref. Diwrnod difyr iawn.

**Gair o rybudd!**

Cafwyd ymweliad i'r ysgol gan Swyddogion o'r Heddlu rhai diwrnodau cyn hanner tymor; fe ddaeth Sam a Tessa i'n plith i'n rhybuddio ni oll i fod yn synhwyrol a chyfrifol adeg Calan Gaeaf ac wrth i ni fwynhau noson Tân gwyllt. Diolch yn fawr i'r ddwy ohonynt am eu cyngor doeth.

**Cardiau Nadolig**

Rydym wedi bod yn brysur yn dylunio cardiau yn barod ar gyfer y Nadolig. Mae'r archebion eisoes wedi cael eu danfon ac yr ydym yn awyddus i'w derbyn yn ôl cyn hir.



Goreuon y Trawsglawd.




Ymweliad Plant blwyddyn 5 a 6 i Fwynglawdd Llywernog.



Paratoi i fynd dan ddaear yn Llywernog.



Tîm Hoci'r ysgol.



Tîm Hoci'r ysgol.



Canfod aur yn Llywernog.

# Tasg y Tincer

Ddaru chi fwynhau'r noson tân gwyllt? Roedd digonedd o synau 'bang' a 'crac' a'r 'wsh' wrth i'r tân gwyllt sgrialu drwy'r awyr uwchben pentrefi ardal Y Tincer! Diolch yn fawr i'r ddau liwiodd llun mis Hydref: Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor ac Ifan Hedd, Ffair-rhos. Dy enw di, **Ifan**, ddaeth o'r het wlân y tro hwn – llongyfarchiadau mawr, a diolch i ti ac Elsi am eich lluniau hyfryd.




Ifan

Oes rhai ohonoch chi am fynd i'r Ffair Aeaf sydd ar fin cychwyn yn Llanelwedd? Bydd pobl o bell ac agos yn dod yno i fwynhau gweld yr anifeiliaid a'r crefftau o bob math, ac i grwydro rownd y stondinau i gyd. Dwi'n hoffi mynd i'r neuadd fwyd – mae popeth yn edrych mor flasus! Ac mae'r ffair wedi dod i Aberystwyth – ac awyr y nos yn llawn sŵn a goleuadau llachar, ac arogl sglodion, candi-fflos a byrgers! Wyddoch chi fod ffair Aberystwyth yn hen iawn, iawn? Mae wedi bod yn dod i Aberystwyth ers cannoedd o flynyddoedd. Doedd dim ceir clatsho (bumper cars) amser hynny, na reids cyffrous, wrth gwrs, ond byddai anifeiliaid yn cael eu gwerthu, a byddai ffermwyr yr ardal yn dod i ddewis pobl i weithio ar y fferm – gwas a morwyn. Mae'r ffair eleni yng Nghoedlan y Parc yn wahanol iawn!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Mae'n dawel yn y ffair sydd yn y llun i'w liwio tro hwn ... cyn i'r dyrfa gyrraedd i roi tro ar y reids a'r stondinau i gyd! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP **erbyn 1 Rhagfyr**. Ta tan toc!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 473 | Tachwedd 2024*